Cardiff University / Prifysgol Caerdydd — Centre of Public Value Procurement / Canolfan Caffael Gwerth Cyhoeddus

Llywodraeth Cymru / Welsh Government

# Adroddiad Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

## At Sylw: Y Gyfarwyddiaeth

## Caffael a Masnachol (CCM), Llywodraeth Cymru

7 Mehefin 2024

Cardiff University | Prifysgol Caerdydd
Centre of Public Value Procurement
Canolfan Caffael Gwerth Cyhoeddus

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Crynodeb Gweithredol

Mae gwariant caffael cyhoeddus yng Nghymru oddeutu £10.8 biliwn[1] ac yn chwarae rhan sylweddol wrth lunio cadwyni cyflenwi Cymru a gwella canlyniadau llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ehangach, gan effeithio ar ansawdd bywydau pobl sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru.

Mae Cymru wedi hen sefydlu enw da yn fyd-eang am ddylunio polisïau uchelgeisiol sy'n hyrwyddo caffael cyfrifol, ac mae'r adroddiad hwn yn tystio i feysydd o ddatblygiadau sylweddol ers Adolygiad Caffael Llesiant yng Nghymru (2020).

Fodd bynnag, mae diffyg hyder a rhwystredigaeth yn parhau wrth geisio cytuno ar ddiffiniadau o werth a cheisio ymgorffori meysydd blaenoriaeth allweddol megis sero net, y mae rhanddeiliaid yn pwysleisio y dylid eu cefnogi gan becyn cymorth carbon cenedlaethol sy'n 'hygyrch i bawb'.

Mae *"Methu Gweld Methiant"* ("Sleepwalking into Failure" FI1) yn drosiad pwerus a nodwyd fel rhybudd gan un rhanddeiliad, wrth dynnu sylw at eu safbwyntiau nhw ynghylch y sefyllfa bresennol o ran ymgorffori sero net mewn caffael cyhoeddus. Dyma safbwynt beirniadol sy'n tanlinellu'r cyfrifoldeb brys a chyfunol o ddod â materion cynaliadwyedd a newid hinsawdd i flaen pob penderfyniad caffael.

Er bod yr adroddiad yn tynnu sylw at rywfaint o wirioneddau anodd i'r Gweinidog a'r Gyfarwyddiaeth Caffael a Masnachol fynd i'r afael â nhw, mae cefnogaeth eang gan randdeiliaid y cyfwelwyd â hwy am benodiad y Cyfarwyddwr cyfredol ac am y gefnogaeth a gafwyd gan dîm datblygu'r CCM. Derbynnir hefyd fod angen newid, sy'n cynnwys datblygu Grŵp Arwain Caffael Cenedlaethol newydd [Cymru].

Mae'r ymchwil annibynnol hwn yn dangos i ba raddau y mae rhanddeiliaid yn ymgysylltu â'r CCM ac yn cael cefnogaeth a gwybodaeth ddigonol ganddi i ymgorffori deg egwyddor Datganiad Polisi Caffael Cymru (DPCC). Mae'r adroddiad yn rhan o broses ymgynghori ac adolygu, gan weithredu fel archwiliad iechyd caffael.

Ar y cyfan, bu hwn yn gyfle ymchwil boddhaus, gan elwa ar gyfradd ymateb gref i'r ymchwil. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno ymatebion cyfun gan 88 o randdeiliaid, sy'n cynrychioli 45 o gyrff cyhoeddus a rhanddeiliaid allweddol eraill ledled Cymru. Croesawodd y rhanddeiliaid a gymerodd ran yn y cyfweliadau gyfle i gymryd rhan yn yr hyn y cytunwyd yn gryf ei fod yn ymarfer ymgynghori pwysig a gwerthfawr.

Mae'r adroddiad ymchwil wedi'i strwythuro'n dri cham gwahanol: **Cam 1** sy'n cyflwyno canfyddiadau'r arolwg; **Cam 2** sy'n cyflwyno canfyddiadau'r cyfweliad; a **Cham 3** sy'n cadarnhau'r themâu allweddol cyffredinol wedi'u mapio yn erbyn y deg egwyddor cyn cynnig argymhellion.

[1] Mae'r amcangyfrif gwariant o £10.8 biliwn yn seiliedig ar ddata hunan-gofnodedig gan sefydliadau'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru (2022-2023)

Centre of Public Value Procurement
Canolfan Caffael Gwerth Cyhoeddus

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynnwys


Crynodeb Gweithredol ... 2
Talfyriadau ... 4
i) Cyflwyniad ... 5
ii) Cyd-destun Ymchwil ... 5
iii) Samplu Ymchwil ... 5
iii) Arolwg Ar-lein ... 6
iv) Cyfweliadau Ar-lein ... 6
v) Protocol moesegol ... 7
vi) Strwythur yr adroddiad ... 8
1. CAM 1 ... 8
1.1 Canfyddiadau'r Arolwg ... 8
1.1.1. Arfer Gorau (C. 1-9) ... 9
1.1.2. Blaenoriaethau Polisi (C. 10-19) ... 10
1.1.3. Proffil a Llywodraethu (C. 20-24) ... 11
1.1.4. Digidol (C.25 – 28) ... 12
1.2. Gwerthuso'r Arolwg ... 13
1.3. Ymatebion Trydyddol (Rhanddeiliaid caffael mewnol) ... 14
Sylwadau testun agored gan ymatebwyr y CCM i'r arolwg ... 14
1.4 Themâu o sylwadau'r arolwg ... 16
2. CAM 2 ... 17
2.1 Cyfweliadau â Rhanddeiliaid ... 17
2.2 Cwestiynau'r Cyfweliad ... 17
2.2.1. Caffael sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ... 19
*Rôl y CCM* ... 20
2.2.2. Caffael cydweithredol ... 20
Rôl y CCM ... 22
2.2.3. Integreiddio wrth gaffael ... 22
Rôl y CCM ... 23
2.2.4. Cost isaf yn erbyn gwerth ... 23
Rôl y CCM ... 24
2.2.5. Cyfathrebu ... 24
Rôl y CCM ... 25
2.2.6. Sero Net ... 26

Rôl y CCM ........ 26
2..2.7. Digideiddio ........ 27
Rôl y CCM ........ 27
2.2.8. Caffael cynaliadwy ........ 28
Rôl y CCM ........ 28
2.3. Cynllun Gweithredu ........ 29
3. CAM 3 ........ 29
3.1 Rôl strategol caffael cyhoeddus yng Nghymru ........ 29
3.2. Cyfleoedd a gollwyd ........ 30
4.0 Argymhellion ........ 31
4.1 Llywodraethu ac Integreiddio ........ 32
4.2 Digideiddio ........ 32
4.3 Sero Net ........ 32
4.4 Cynaliadwyedd ........ 32
4.5 Cyfathrebu ........ 33
5.0 Sylwadau Terfynol ........ 33
Cydnabyddiaeth ........ 34
Atodiad 1 Rhestr lawn o sefydliadau rhanddeiliaid a gymerodd ran ........ 36
Atodiad 2 – Cwestiynau'r Arolwg ........ 37
Atodiad 3 – Graff a) yn dangos yr atebion amrywiol o'r Sector Cyhoeddus Ehangach (Yn amrywio o Las tywyll -Anghytuno'n Gryf / Glas golau - Cytuno'n Gryf) ........ 40
Graff b) yn dangos yr atebion amrywiol gan Lywodraeth Cymru (Yn amrywio o Las tywyll - Anghytuno'n Gryf / Glas golau - Cytuno'n Gryf) ........ 41
Atodiad 4 - Protocol Cyfweld gan gynnwys Cwestiynau'r Cyfweliad ........ 42
Atodiad 5 – Cyfranogwyr y Cyfweliad wedi'u Codio ........ 45
Atodiad 6: Sylwadau cyfranogwyr unigol yn ymwneud â Deg Egwyddor DPCC. ........ 47

## Talfyriadau

| Talfyriadau | Ystyr | Y dudalen gyntaf lle sonnir amdano |
|---|---|---|
| CCM | Cyfarwyddiaeth Caffael a Masnachol Cymru | 2 |
| DPCC | Datganiad Polisi Caffael Cymru | 2 |
| CPVP | Canolfan Caffael Gwerth Cyhoeddus | 5 |
| SOP | Gweithdrefn Gweithredu Safonol | 7 |
| MEAT | Tendr mwyaf manteisiol yn economaidd | 11 |
| MAT | Tendr mwyaf manteisiol | 11 |
| CRM | Rheoli'r berthynas â chwsmeriaid | 14 |

# i) Cyflwyniad

- Comisiynwyd yr adroddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid hwn gan John Coyne, Cyfarwyddwr y Gyfarwyddiaeth Caffael a Masnachol, yn Llywodraeth Cymru, ac mae'n rhoi gwerthusiad annibynnol o ymgysylltu â rhanddeiliaid ac archwiliad iechyd caffael yng Nghymru.
- Cyflwynwyd y comisiwn gan y prif ymchwilydd, yr Athro Jane Lynch, y Ganolfan Caffael Gwerth Cyhoeddus, Ysgol Busnes Caerdydd, Prifysgol Caerdydd, y cyfeirir ati fel CPVP yn yr adroddiad.

# ii) Cyd-destun Ymchwil

- Yn 2021, cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid, Rebecca Evans AS Ddatganiad Polisi Caffael Cymru (DPCC)[2] a chynllun gweithredu sy'n cynrychioli uchelgais a rennir i Gymru.
- Mae'r Gweinidog yn nodi bod dull partneriaeth, drwy gydweithio o fewn cyrff cyhoeddus ac ar draws cyrff cyhoeddus, yn allweddol i gyflawni'r DPCC yn effeithiol. Pwysleisir y bydd mwy o dryloywder yn golygu adolygiadau rheolaidd o'r DPCC gan randdeiliaid.
- Mae'r ymchwil hwn ynghylch ymgysylltu â rhanddeiliaid yn broses adolygu ar gyfer pennu'r graddau y mae rhanddeiliaid (Llywodraeth Cymru, y sector cyhoeddus ehangach, a chyflenwyr allweddol) yn cael cefnogaeth a gwybodaeth ddigonol ynghylch y DPCC a nodir mewn Cynllun Gweithredu ac iddo ddeg o bwyntiau.
- Mae cwestiynau'r arolwg a'r cyfweliad wedi'u strwythuro o amgylch Cynllun Gweithredu DPCC sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol megis cydweithio, integreiddio, pwysleisio gwerth dros gost, canlyniadau dros broses, digideiddio, cynaliadwyedd, sero net a hybu proffil caffael ar draws sector cyhoeddus Cymru.

## iii) Samplu Ymchwil

- Mae'r ymchwiliad llawn dan arweiniad ymchwil yn cynnwys trafodaethau'r cyfweliad a'r arolwg, gan nodi safbwyntiau gan 88 o randdeiliaid sy'n cynrychioli 45 o gyrff cyhoeddus ledled Cymru sydd wedi rhannu eu safbwyntiau yn archwiliad iechyd lles y Gyfarwyddiaeth Caffael a Masnachol yn Llywodraeth Cymru. Mae'r sefydliadau rhanddeiliaid sy'n cymryd rhan yn cael eu cyflwyno yn Atodiad 1.

[2] Datganiad polisi caffael Cymru [HTML] | LLYW.CYMRU

## iii) Arolwg Ar-lein

- Dyluniwyd 30 o gwestiynau arolwg, ac fe'u rhestrir gyda'r protocol ymchwil yn Atodiad 2. Defnyddiwyd graddfa sgorio Likert ar gyfer yr arolwg (*1 ddim yn berthnasol; 2 yn anghytuno'n gryf â'r datganiad hwn; 3 yn anghytuno â'r datganiad hwn; 4 heb gytuno nac anghytuno â'r datganiad hwn; 5 cytuno â'r datganiad hwn; 6 cytuno'n gryf â'r datganiad hwn*).
- Dosbarthwyd yr arolwg i randdeiliaid y CCM a rhanddeiliaid y tu allan i'r CCM gan Lywodraeth Cymru.
- Ychwanegwyd cwestiwn ymateb ansoddol agored at bob cwestiwn - '*Sut hoffech chi weld y sgôr hwn yn cynyddu?*'. Mae'n rhaid diolch yma i'r sawl a roddodd amser, ymdrech ac ymrwymiad i'r proffesiwn caffael yn eu hymatebion testun agored manwl.
- Fe wnaeth cyfanswm o 35 o randdeiliaid mewnol y CCM dreialu'r arolwg ar-lein, cyn i 120 o randdeiliaid y tu allan i'r CCM gael eu gwahodd i gymryd rhan – cwblhaodd 61 o randdeiliaid o'r tu allan i'r CCM yr arolwg (mae eu sefydliadau priodol wedi'u cynnwys yn Atodiad 1).
- Er derbynnir rhywfaint o ragfarn, mae'n werth ystyried sylwadau testun agored yr ymatebion CCM sydd, yn yr adroddiad hwn, ar wahân i ymatebion rhanddeiliaid y tu allan i'r CCM.
- Ar gyfer yr adroddiad, defnyddir dull codio lliw (golau traffig, coch, ambr, gwyrdd) er mwyn hwyluso'r dadansoddi gweledol.

## iv) Cyfweliadau Ar-lein

- Gwahoddwyd 34 o randdeiliaid o 27 o gyrff cyhoeddus Cymru i gymryd rhan yn y cyfweliadau ar-lein - cwblhaodd 27 o randdeiliaid y broses gyfweld a oedd yn cynnwys rhoi caniatâd a chytuno i'r trawsgrifiadau dienw.
- Fel meincnod ansawdd a dangosydd o brofiad caffael, cyflogwyd 15 cyfranogwr rhanddeiliaid mewn rolau ar lefel reoli, ac mae gan 12 o'r cyfranogwr rhanddeiliad rolau cyfarwyddwr neu brif weithredwr.
- Mae tri a gafodd gyfweliad yn cynrychioli adrannau nad ydynt yn adrannau caffael yn Llywodraeth Cymru; mae 20 yn cynrychioli'r sector cyhoeddus ehangach (gan gynnwys iechyd, awdurdodau lleol, addysg a'r gwasanaethau brys); a phedwar yn cynrychioli cyflenwyr ac asiantaethau cymorth eraill.
- Yn bennaf cafwyd safbwyntiau gan y personél hynny sydd â chaffael yn brif rôl, ond gwnaed ymgynghoriad pellach gyda rhanddeiliaid a oedd yn rhyngweithio'n rheolaidd â'r

swyddogaeth gaffael. Roedd gwaith yr unigolion hyn yn cynnwys economi sylfaenol, cynaliadwyedd, cyllid, technoleg gwybodaeth a seiberddiogelwch, gwasanaethau cyfreithiol, masnachol a chyda chyflenwyr.

- Rhoddwyd ystyriaeth i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth ddewis cyfranogwyr cyfweliadau, gan sicrhau bod ystod eang o safbwyntiau rhanddeiliaid mewnol ac allanol yn cael eu cynnwys.
- Mae'n rhaid diolch i'r unigolion a roddodd o'u hamser yn hael i gymryd rhan yn nhrafodaethau'r cyfweliad a oedd yn werthfawr o ran cynnwys ac sydd wedi bod o gymorth i lywio canfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad.

## v) Protocol moesegol

- Gweinyddwyd yr arolwg gan Lywodraeth Cymru, a chafodd y canfyddiadau dienw eu trin fel data eilaidd, a'u heithrio o weithdrefn foesegol y brifysgol.
- Ar gyfer cam cyfweld yr ymchwil hwn, cafwyd cymeradwyaeth foesegol gan Brifysgol Caerdydd ar gyfer dadansoddi data sylfaenol (Cyf. Caerdydd: 2314).
- Bydd yr holl ddata sylfaenol yn cael ei gadw'n ddiogel am o leiaf 10 mlynedd (2024-2034) gan ddilyn canllawiau'r brifysgol ar gyfer trin data ymchwil, ac ar ôl hynny bydd yn cael ei waredu'n briodol.
- Mae'r prif ymchwilydd wedi cwblhau hyfforddiant cywirdeb ymchwil ac wedi cydymffurfio â gweithdrefn weithredu safonol (SOP) y brifysgol ar gyfer rheoli a storio data a gofnodwyd.
- Parodd pob cyfweliad 30 munud a oedd yn cynnwys cyfleu'r protocol cyfweld (Atodiad 5) ar ddechrau pob cyfweliad.
- Cofnodwyd cyfweliadau gan ddefnyddio gwasanaethau trawsgrifio a recordio Microsoft Teams, ac at ddibenion triongli ac ansawdd, anfonwyd trawsgrifiad glân o'r cyfweliad a recordiwyd mewn e-bost at bob cyfranogwr i'w wirio.
- Er mwyn cydymffurfio â pholisi moesegol y brifysgol, e-bostiwyd taflen wybodaeth am y prosiect a ffurflen gydsynio at y cyfranogwyr, gan ofyn iddynt lofnodi'r ffurflen a'i dychwelyd drwy e-bost.
- Roedd yr holl ddata sylfaenol a gasglwyd yn ystod y cyfweliadau yn ddienw a rhoddwyd cod i bob cyfranogwr (e.e. TH1). Sicrhaodd y dull hwn eu cyfrinachedd yn yr ymchwil (Atodiad 6) - mae'r agwedd ddienw hon yn ofyniad protocol moesegol gan y brifysgol ond yn y cyfweliadau, roedd hefyd yn creu amgylchedd 'diogel' lle teimlai cyfranogwyr eu bod yn gallu siarad yn onest ac yn gyfrinachol.

## vi) Strwythur yr adroddiad

- **Cam 1** yr adroddiad sy'n cyflwyno dadansoddiad a chanfyddiadau'r arolwg ar-lein.
- **Cam 2** yr adroddiad sy'n cyflwyno dadansoddiad a chanfyddiadau'r cyfweliadau â rhanddeiliaid allweddol.
- **Cam 3** sy'n cyfuno'r ddwy set ddata i werthuso perfformiad caffael yn erbyn Datganiad Polisi Caffael Cymru (2021), deg egwyddor y Cynllun Gweithredu. Mae'r adroddiad yn cymharu'r cynnydd ers Adroddiad Adolygiad 'Sut rydym yn Caffael Llesiant' (2020) gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn olaf, sefydlir themâu allweddol cyn cynnig argymhellion.
- Gan ddefnyddio offeryn arolwg a chyfweliadau ar-lein trwy Microsoft Teams, ymchwiliodd CPVP i berfformiad a galluoedd canfyddedig y Gyfarwyddiaeth Caffael a Masnachol gan randdeiliaid allweddol, sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru (caffael a heblaw caffael), Sector Cyhoeddus Cymru ehangach (iechyd, awdurdodau lleol, addysg a'r gwasanaethau brys), ac eraill (cyrff cenedlaethol, asiantaethau cymorth, a'r trydydd sector).

# 1. CAM 1

## 1.1 Canfyddiadau'r Arolwg

- Mae Atodiad 2 yn cynnwys rhestr gwestiynau'r arolwg llawn ac mae Atodiad 4 yn cyflwyno crynodebau graffig gweledol o'r ymatebion ar gyfer Cwestiynau 1-28 fesul grŵp rhanddeiliaid: a) y Sector Cyhoeddus Ehangach, a b) rhanddeiliaid y tu allan i CCM Llywodraeth Cymru.
- Mae Atodiad 3 yn cyflwyno dadansoddiad o ymatebion yr arolwg i weld cymhwystra ar gyfer sgorio – h.y., ac eithrio'r cyfranogwyr nad oeddent yn gymwys.
- Mae cwestiynau 29 a 30 yn ymwneud â datblygu Grŵp Arwain Cenedlaethol [Cymru] y sonnir amdano ar wahân.
- Mae ymatebion i'r arolwg yn cael eu mapio yn erbyn cynllun gweithredu deg pwynt DPCC yn Atodiad 7. Mae hyn yn cynnwys rhai o'r sylwadau ar adborth cyfweliad. Er mwyn dealltwriaeth weledol haws, caiff yr ymatebion eu sgorio gan ddefnyddio'r dull goleuadau traffig (coch, ambr, gwyrdd).

- Mae pob cwestiwn arolwg yn cael ei glystyru a'i alinio â themâu DPCC: Arfer Gorau C.1-9; Polisïau Blaenoriaeth C.10–19; Proffil a Llywodraethu C.20–24; Digidol C.25-28; Strategaeth C.29-30.
- Dyma'r allwedd cod lliw goleuadau traffig (coch, ambr, gwyrdd) a ddefnyddir i gyflwyno canfyddiadau'r arolwg ar gyfer pob cwestiwn:

**Coch (llai na thraean yr ymatebwyr yn cytuno)**
**Ambr (llai na hanner yr ymatebwyr yn cytuno)**
**Gwyrdd (mwy na hanner yr ymatebwyr yn cytuno)**

### 1.1.1. Arfer Gorau (C. 1-9)

C1. Mae'r CCM yn ysgogi gweithgarwch caffael cydweithredol yng Nghymru er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl o ran gwerth cymdeithasol ac economaidd hirdymor o wariant cyhoeddus.

**Mae 51% o ymatebwyr Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach yn CYTUNO'N GRYF neu'n CYTUNO â'r datganiad hwn**

C2. Mae'r CCM yn wych am alinio ei ffyrdd o weithio ac ymgysylltu â rhanddeiliaid i gyflawni atebion caffael arloesol a chynaliadwy.

**Mae 23% o ymatebwyr Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach yn CYTUNO'N GRYF neu'n CYTUNO â'r datganiad hwn**

C3. Mae'r CCM yn darparu gwasanaeth a chymorth rhagorol wrth helpu sefydliadau i gyflawni caffael sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau (lle mae taliadau i gyflenwyr yn gysylltiedig â pherfformiad cyflawni contract).

**Mae 19% o ymatebwyr Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach yn CYTUNO'N GRYF neu'n CYTUNO â'r datganiad hwn**

C4. Mae'r CCM yn cefnogi dylunio a datblygu fframwaith er budd pawb, gan sicrhau'r cyfraniadau mwyaf posibl at bedwar dimensiwn llesiant, lle bynnag y bo modd.

**Mae 24% o gyfranogwyr Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach yn CYTUNO'N GRYF neu'n CYTUNO â'r datganiad hwn**

C5. Mae'r CCM yn darparu gwasanaeth a chymorth rhagorol i sefydliadau sy'n ceisio integreiddio caffael yn well i'w prosesau sefydliadol ehangach.

**Mae 15% o gyfranogwyr Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach yn CYTUNO'N GRYF neu'n CYTUNO â'r datganiad hwn**

C6. Mae'r CCM yn cyflawni ar feysydd polisi drwy'r offer, arweiniad a hyfforddiant priodol.

**Mae 43% o gyfranogwyr Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach yn CYTUNO'N GRYF neu'n CYTUNO â'r datganiad hwn**

C7. Mae'r CCM yn darparu gwasanaeth a chymorth rhagorol tuag at adeiladu a chynnal cadwyni cyflenwi gwydn ym maes caffael.

**Mae 25% o gyfranogwyr Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach yn CYTUNO'N GRYF neu'n CYTUNO â'r datganiad hwn**

C8. Mae yna offer strategol ac asesiadau risg cydnerthedd yn y gadwyn gyflenwi i sicrhau bod gweithgarwch caffael yn cyd-fynd â'r polisi caffael blaengar ac yn cyfrannu ato.

**Mae 41% o ymatebwyr Llywodraeth Cymru a chyfranogwyr y sector cyhoeddus ehangach yn CYTUNO'N GRYF neu'n CYTUNO â'r datganiad hwn**

C9**.** Mae'r CCM wedi llofnodi'r cod ymarfer moesegol ac wedi cyhoeddi datganiad caethwasiaeth **fodern.**

**Mae 85% o gyfranogwyr Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach yn CYTUNO'N GRYF neu'n CYTUNO â'r datganiad hwn**

### 1.1.2. Blaenoriaethau Polisi (C. 10-19)

C10. Rwy'n ymwybodol o'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus a fydd yn sefydlu Gwaith Teg fel rhan annatod o gaffael sy'n gyfrifol yn gymdeithasol.

**Mae 82% o gyfranogwyr Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach yn CYTUNO'N GRYF neu'n CYTUNO â'r datganiad hwn**

C11. Mae'r CCM yn meithrin arferion gorau caffael cynaliadwy ymhellach ac yn eu graddio i gefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion lles sefydliadol.

**Mae 44% o gyfranogwyr Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach yn CYTUNO'N GRYF neu'n CYTUNO â'r datganiad hwn**

C12. Mae'r CCM yn darparu gwasanaeth a chymorth rhagorol tuag at gyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â chaffael blaengar, fel yr economi sylfaenol a chylchol.

**Mae 23% o gyfranogwyr Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach yn CYTUNO'N GRYF neu'n CYTUNO â'r datganiad hwn**

C13. Mae'r CCM yn darparu gwasanaeth a chymorth rhagorol i randdeiliaid sy'n ceisio ymgorffori arferion a phrosesau caffael cynaliadwy.

**Mae 30% o ymatebwyr Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach yn CYTUNO'N GRYF neu'n CYTUNO â'r datganiad hwn**

C14. Mae'r CCM yn cynnig pecynnau cymorth ar offer strategol cynaliadwyedd, asesiadau risg, rheoli contractau, gwerth cymdeithasol a chostau oes gyfan.

**Mae 50% o gyfranogwyr Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach yn CYTUNO'N GRYF neu'n CYTUNO â'r datganiad hwn**

C15. Mae'r CCM yn wych am flaenoriaethu lleihau carbon a Sero Net drwy benderfyniadau caffael cynaliadwy.

**Mae 18% o gyfranogwyr Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach yn CYTUNO'N GRYF neu'n CYTUNO â'r datganiad hwn**

C16. Mae'r CCM yn darparu gwasanaeth a chymorth rhagorol i randdeiliaid sy'n ceisio blaenoriaethu lleihau carbon a Sero Net.

**Mae 19% o gyfranogwyr Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach yn CYTUNO'N GRYF neu'n CYTUNO â'r datganiad hwn**

C17. Mae Cynlluniau Lleihau Carbon y CCM, a lleihau carbon, yn rhan orfodol o dendrau caffael ar gyfer contract LIC dros £5m o fis Ebrill 2022.

**Mae 54% o gyfranogwyr Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach yn CYTUNO'N GRYF neu'n CYTUNO â'r datganiad hwn**

C18: Mae'r CCM yn darparu gwasanaeth a chymorth rhagorol i gyflawni caffael yn seiliedig ar werth.

**Mae 35% o gyfranogwyr Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach yn CYTUNO'N GRYF neu'n CYTUNO â'r datganiad hwn**

C19**.** Mae offer seiliedig ar werth ac asesiadau risg (e.e., MEAT i MAT) y CCM yn sicrhau bod gweithgarwch caffael yn cyd-fynd â chanlyniadau hirdymor Cymru ac yn gwneud y gorau ohonynt.

**Mae 43% o gyfranogwyr Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach yn CYTUNO'N GRYF neu'n CYTUNO â'r datganiad hwn**

### 1.1.3. Proffil a Llywodraethu (C. 20-24)

C.20. Mae'r CCM yn wych am godi statws a phroffil hirdymor y proffesiwn caffael, fel galluogwr polisi ar draws y Sector Cyhoeddus yng Nghymru.

**Mae 35% o gyfranogwyr Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach yn CYTUNO'N GRYF neu'n CYTUNO â'r datganiad hwn**

C21. Mae'r CCM yn wych am ddarparu cymorth i randdeiliaid sy'n ceisio codi statws a phroffil hirdymor caffael.

**Mae 33% o gyfranogwyr Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach yn CYTUNO'N GRYF neu'n CYTUNO â'r datganiad hwn**

C22. Rwy'n ymwybodol o'r cyfleoedd datblygu a gynigir gan y CCM i staff yn fy sefydliad i ennill eu cymwysterau proffesiynol CIPS.

**Mae 55% o gyfranogwyr Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach yn CYTUNO'N GRYF neu'n CYTUNO â'r datganiad hwn**

C23. Mae'r CCM yn gyfaill beirniadol rhagorol, ac mae ganddi'r llywodraethu priodol i annog buddion, effeithlonrwydd ac arbedion drwy gaffael a chontractio.

**Mae 22% o gyfranogwyr Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach yn CYTUNO'N GRYF neu'n CYTUNO â'r datganiad hwn**

C24. Mae'r broses gaffael yn cael ei deall yn dda a'i chymhwyso'n gyson gan Weithwyr Proffesiynol Caffael yn fy nhîm i neu'r rhai sy'n darparu cymorth i'm tîm (pa un bynnag sy'n berthnasol).

**Mae 63% o gyfranogwyr Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach yn CYTUNO'N GRYF neu'n CYTUNO â'r datganiad hwn**

### 1.1.4. Digidol (C.25 – 28)

C.25. Mae'r CCM yn gwella integreiddiad a phrofiad y defnyddiwr o ran ei hatebion digidol.

**Mae 31% o gyfranogwyr Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach yn CYTUNO'N GRYF neu'n CYTUNO â'r datganiad hwn**

C26. Mae'r CCM yn darparu cymorth rhagorol tuag at gyflawni'r Strategaeth Ddigidol i Gymru.

**Mae 13% o gyfranogwyr Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach yn CYTUNO'N GRYF neu'n CYTUNO â'r datganiad hwn**

C27. Rwy'n ymwybodol o Gynllun Gweithredu Digidol ac Offer a Thempledi Digidol y CCM ar gyfer caffael.

**Mae 22% o gyfranogwyr Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach yn CYTUNO'N GRYF neu'n CYTUNO â'r datganiad hwn**

C28 Mae'r CCM yn darparu gwybodaeth reoli ardderchog ac adroddiadau data sy'n ddefnyddiol ac yn gywir.

**Mae 13% o gyfranogwyr Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach yn CYTUNO'N GRYF neu'n CYTUNO â'r datganiad hwn**

## 1.2. Gwerthuso'r Arolwg

**Beth sy'n gweithio'n dda (Gwyrdd)**

- Mae'r broses gaffael yn cael ei deall yn dda a'i chymhwyso'n gyson.
- Mae'r CCM yn rhagorol am ymarfer a hyrwyddo caffael moesegol a chynaliadwy - dangosir hyn trwy lofnodi datganiad caethwasiaeth fodern Llywodraeth Cymru a'i hymrwymiad i Waith Teg.
- Mae'r cyfranogwyr yn gwbl ymwybodol o ymrwymiad y CCM i gaffael sy'n gyfrifol yn gymdeithasol a'i phwyslais ar waith teg wrth gyflwyno Bil Partneriaeth a Chaffael Cymdeithasol [Cymru] (sy'n Ddeddf bellach).
- Mae'r CCM wedi datblygu Cynlluniau Lleihau Carbon a'i gwneud yn glir eu bod yn ffurfio gofyniad gorfodol mewn tendrau caffael.
- Mae'r CCM yn cael ei hystyried yn gyfaill beirniadol mewn rhai meysydd.

**Meysydd lle mae llai o hyder (Ambr)**

- Sicrhau'r canlyniadau cymdeithasol ac economaidd mwyaf posibl o wariant caffael.
- Cael gafael ar offer seiliedig ar werth ac asesiadau risg.
- Codi statws a phroffil hirdymor y proffesiwn caffael fel hwylusydd polisi.
- Deall y cyfleoedd cymwysterau proffesiynol CIPS parhaus.
- Mae gan y CCM y llywodraethu priodol i annog buddion ac effeithlonrwydd.
- Gwella integreiddiad a phrofiad y defnyddiwr o ran ei hatebion digidol.

**Meysydd lle nad oes fawr o hyder, os o gwbl (Coch)**

- Ymgysylltu â rhanddeiliaid i gyflawni canlyniadau caffael arloesol a chynaliadwy.
- Cefnogi dylunio fframwaith ar gyfer y canlyniadau llesiant mwyaf posibl.
- Cefnogi sefydliadau i integreiddio caffael yn well â gweddill y sefydliad.
- Codi statws a phroffil hirdymor y proffesiwn caffael.
- Adeiladu a chynnal cadwyni cyflenwi gwydn.
- Cefnogi rhanddeiliaid gyda chaffael blaengar – h.y., ymgorffori egwyddorion Economi Sylfaenol a'r Economi Gylchol.
- Blaenoriaethu lleihau carbon a sero net mewn penderfyniadau caffael.
- Cefnogi rhanddeiliaid gyda lleihau carbon.
- Cymorth tuag at gyflawni'r Strategaeth Ddigidol i Gymru.
- Datblygu Cynllun Gweithredu Digidol gydag offer a thempledi perthnasol.

- Darparu adroddiadau rheoli gyda data sy'n ddefnyddiol ac yn gywir.

## 1.3. Ymatebion Trydyddol (Rhanddeiliaid caffael mewnol)

- Cafodd yr arolwg ei dreialu i ddechrau gyda'r CCM, ac mae canfyddiadau cadarnhaol yn amlach na'r rhai a adroddwyd gan randdeiliaid eraill y llywodraeth a'r sector cyhoeddus ehangach – oherwydd y gogwydd anochel ni chofnodir y set ddata lawn o ymatebion canrannol yn yr adroddiad hwn.
- Mae cwestiynau 1, 8, 9, 10, 11, 14, 17, 19, 22, 24, 25 yn fwy cydsyniol ac yn cytuno ar ymgysylltiad cadarnhaol.
- Cyfaddefir diffyg hyder drwy beidio â chytuno neu aros yn ddiduedd (heb gytuno nac anghytuno) â rhai datganiadau.
- Mae'r ymatebwyr yn anghytuno'n llwyr â chwestiwn 27, sy'n holi a ydy'r CCM yn cynnig Cynllun Gweithredu Digidol gydag offer a thempledi.
- Er bod yr adroddiad hwn yn canolbwyntio mwy ar ganfyddiadau'r sector cyhoeddus ehangach a chanfyddiadau Llywodraeth Cymru, mae rhywfaint o'r adborth mewnol gan dîm y CCM a gafwyd drwy'r sylwadau testun agored yn arbennig o nodedig ac yn haeddu sylw fel y cyflwynir isod.

### Sylwadau testun agored gan ymatebwyr y CCM i'r arolwg

C2. Mae Caffael Masnachol Llywodraeth Cymru yn wych am alinio ei ffyrdd o weithio ac ymgysylltu â rhanddeiliaid i gyflawni atebion caffael arloesol a chynaliadwy.

*Sylw: Mae angen i ni fod yn fwy rhagweithiol a chadarn. Gellir gwella a meithrin ymgysylltiad â rhanddeiliaid. Nid oes CRM ar gyfer gweithgarwch caffael, felly nid oes llawer o reolaeth effeithiol ar randdeiliaid os o gwbl.*

*Sylw: Mae sicrhau ymgysylltiad ac ymrwymiad addas gan y bobl briodol ar draws y sector cyhoeddus yn parhau i fod yn anodd, gyda llawer o sefydliadau yn awyddus i gymryd rhan dim ond pan fydd y fframwaith wedi'i ddyfarnu a heb ymwneud â helpu i lunio'r strategaeth gaffael.*

C5. Mae Caffael Masnachol Llywodraeth Cymru yn rhoi cymorth rhagorol i sefydliadau sy'n ceisio integreiddio caffael yn well i'w prosesau sefydliadol ehangach.

*Sylw: Mae rhai timau, ond mae gan eraill feddylfryd 'seilo' (y teimlad o fod ar wahân) o hyd. Mae'n debyg bod polisïau a biliau yn benodol yn cael eu datblygu heb fawr o fewnbwn gan sefydliadau. Nid heb geisio, weithiau drwy ddiffyg adnoddau, dro arall drwy ddiffyg*

*ymgysylltiad gan y sefydliadau a diffyg cefnogaeth, ond gyda'r rheoliadau newydd, mae'n rhaid cael llawer mwy o safoni a chysondeb ledled Cymru gyfan i sicrhau y gall pawb ddeall caffael, o fewn y proffesiwn a'r tu allan iddo. Ni ddylem fod yn gwneud caffael yn wahanol ar draws y 100 sefydliad sector cyhoeddus, mwy neu lai, ledled Cymru. Dylem fod yn croesawu technolegau newydd a'r cyfleoedd a ddaw yn sgil y rheoliadau newydd. Gyda'r pwysau ariannol sy'n wynebu pob rhan o'r sector cyhoeddus os na wnawn ni hynny. Gellir darparu cymorth, ond nid oes digon o adnoddau i helpu'n llawn yn y maes hwn ar hyn o bryd.*

C7. Mae Caffael Masnachol Llywodraeth Cymru yn darparu gwasanaeth a chymorth rhagorol tuag at adeiladu a chynnal cadwyni cyflenwi gwydn ym maes caffael.

*Sylw: Nid ydym yn gwneud llawer o reoli cadwyn gyflenwi na rheoli perthynas, mewn gwirionedd. Mae gwaith cyfyngedig yn cael ei wneud ar reoli contractau; mae angen mwy o adnoddau i fynd i'r afael â'r maes hwn yn llawn.*

C14. Rwy'n ymwybodol o'r pecynnau cymorth ar offer strategol cynaliadwyedd, asesiadau risg, rheoli contractau, gwerth cymdeithasol a chostau oes gyfan gan Gaffael Masnachol Llywodraeth Cymru.

*Sylw: Yn ymwybodol ond yn meddwl bod hyn yn hen ac wedi dyddio. Mae angen diweddaru'r system gyflenwi gyfan ar gyfer caffael o'r dechrau i'r diwedd ar gyfer y dyfodol. Ni ddylai fod pecynnau cymorth; dylent oll fod wedi'u hymgorffori.*

C28. Mae Caffael Masnachol Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth reoli ardderchog ac adroddiadau data sy'n ddefnyddiol ac yn gywir.

*Sylw: Ni chynhyrchir adroddiadau mewn pryd, a gwrthodwyd gormod o ffurflenni cyflenwyr o ganlyniad i wallau fformatio gyda'r gwariant heb ei gynnwys yn yr adroddiadau. Mae angen gwell system. Mae angen data gwario mewn cyfarfodydd rheoli cyflenwyr; nid yw'n edrych yn dda i sefydliad ofyn i'r cyflenwyr ddweud wrthym beth yw eu gwariant gan nad ydym wedi cael y data am 6+ mis.*

C29. Buaswn yn croesawu creu Grŵp Arwain Caffael i helpu i lunio'r strategaeth gaffael genedlaethol newydd ac i roi cyngor ar amcanion a chynllun busnes caffael masnachol Llywodraeth Cymru.

*Sylw: Rwy'n dweud na oherwydd imi fyw drwy grwpiau cenedlaethol yn y gorffennol ond gallwn fod wedi gwneud y tro â botwm 'efallai'.* Mae ganddynt eu rhinweddau, ond yn gyntaf, credaf y byddai angen i ni ddarganfod a oes ar ein rhanddeiliaid eisiau strategaeth gaffael genedlaethol, pwy fyddai'n ymrwymo iddi (bydd iechyd yn mynd y ffordd y mae iechyd eisiau mynd), a beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol.

*Sylw: Rwy'n tybio y byddai'r grŵp yn cael ei fframio gan Ddatganiad Polisi Caffael Cymru ac yn ceisio datblygu gweithgareddau i gefnogi hynny. Fel grŵp sydd â golwg gyffredinol o'r hyn sy'n digwydd ledled Cymru, gallai goruchwyliaeth strategol o'r fath fod yn fuddiol. Peidiwch â gadael iddynt benderfynu ar feysydd mwy tactegol, megis gweithgaredd cydweithredol i'w wneud gan LIC. Cadwch y cyfan yn agored ac yn strategol.*

## 1.4 Themâu o sylwadau'r arolwg

Cyflwynir sylwadau'r arolwg yn Atodiad 7 ac maent wedi'u mapio yn erbyn deg egwyddor y Cynllun Gweithredu. Y themâu allweddol sy'n deillio o'r data ar hyn o bryd yw:

*Agenda cynaliadwyedd*

- Un o'r negeseuon dro ar ôl tro yn adborth yr arolwg yw'r ffocws parhaus ar feddwl tymor byr yn erbyn meddwl tymor hir yn y sefydliad.
- Mae'n bwysig nodi bod rhai cyfranogwyr yn dal i deimlo dan bwysau o fewn eu hadrannau priodol i wneud penderfyniadau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau neu sy'n "*seiliedig ar werthoedd"*, ond nid yw'n glir iddynt beth yw ystyr ymarferol y termau hyn.
- Er bod rhanddeiliaid yn Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach yn cydnabod y polisïau, gweithdrefnau, yr offer a'r fframweithiau sydd ar waith ynghylch cynaliadwyedd, mae rhai yn teimlo y "*gellid gwneud llawer mwy."*
- Mae'r ymatebwyr yn credu bod "*gormod o bwyslais ar enillion tymor byr*" o hyd. "*Rwy'n ymwybodol o MEAT [y tendr mwyaf manteisiol yn economaidd], gan fod y manylebau rwy'n gweithio arnyn nhw yn defnyddio'r dull hwnnw ar gyfer sgorio [ond] nid oeddwn yn ymwybodol o MAT [y tendr mwyaf manteisiol], gan nad wyf yn defnyddio'r dull hwnnw*."

*Cydweithio*

- Mae canfyddiad cyffredinol bod cydweithio [mewnol] yn fwy amlwg rhwng y CCM ac adrannau eraill Llywodraeth Cymru nag ydyw gyda rhanddeiliaid [allanol] yn y sector cyhoeddus ehangach.
- Teimla cyfranogwyr Llywodraeth Cymru fod gwell cydweithio yn sail i ganlyniadau cynaliadwy. Mae cydweithio wedi'i farcio'n oren ac yn faes i'w wella gan fod rhanddeiliaid yn ystyried bod ymddygiad a llywodraethu cydweithredol yn atal caffael mwy cydweithredol.

*Cyfathrebu*

- Er bod llawer o randdeiliaid yn cydnabod y polisïau, y gweithdrefnau a'r pecynnau cymorth sydd ar gael, mae rhai cyfranogwyr yn dal i grybwyll "*diffyg gweledEdd a*

*chyfathrebu,"* gan ddweud bod hynny'n bennaf oherwydd peidio â chofrestru i gael yr e-byst (neu wybod sut i wneud hynny), neu gyfathrebu gwan rhwng y CCM a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru.

*Llywodraethu*

- Mae rhanddeiliaid yn pryderu am yr heriau capasiti sy'n wynebu'r rhan fwyaf o sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r angen am ddull mwy safonol o gaffael er mwyn helpu i geisio lleddfu rhai o'r materion hyn. "*Ni ddylem fod yn gwneud caffael yn wahanol ar draws y 100 bras o sefydliadau'r sector cyhoeddus ledled Cymru."*
- Mae ymatebwyr yr arolwg yn pwysleisio'r angen i gyfleu'n effeithiol "*ddiffiniadau a mesurau safonol ar gyfer manylebau a dulliau wedi'u safoni o gofnodi canlyniadau".* Mae'r cyfranogwyr yn credu mai cyfrifoldeb y *"rheolwyr contractau' yw adrodd ar gynnydd [nid caffael],* ac maent yn cefnogi cyflwyno *"offeryn neu borth adrodd*".
- Mae gwerthusiad y data arolwg ansoddol a meintiol yn llywio'r cam nesaf yn y broses ymchwil, Cam 2.

# 2. CAM 2

## 2.1 Cyfweliadau â Rhanddeiliaid

- Arweiniodd dadansoddiad o adborth yr arolwg at ddylunio deg cwestiwn cyfweliad. Cynhaliwyd y cyfweliadau â rhanddeiliaid yn ystod misoedd Mawrth ac Ebrill 2024.
- Mae'r protocol ar gyfer gwahodd rhanddeiliaid ar gyfer cyfweliad wedi'i gofnodi yn Atodiad 5.
- Gwahoddwyd 34 o randdeiliaid i gyfweliadau, o ystod o sefydliadau gan gynnwys gofal iechyd, awdurdodau lleol, llywodraeth ganolog, cyrff cenedlaethol, cyflenwyr a darparwyr gwasanaethau.
- Mae Atodiad 6 yn nodi'r rhestr lawn o gyfranogwyr cyfweliadau [dienw] wedi'u codio.

## 2.2 Cwestiynau'r Cyfweliad

C.1. **Caffael sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau**

- Ydych chi'n deall beth a olygir wrth gaffael sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau?
- Yn eich barn chi, beth yw'r prif rwystrau rhag cyflawni'r dull hwn (os oes rhai o gwbl)?
- Sut gall y CCM eich helpu i'w goresgyn?

C.2. Caffael cydweithredol

- I ba raddau ydych chi'n cymhwyso trefniadau caffael cydweithredol?
- Beth sy'n gweithio'n dda a beth sy'n fwy heriol?
- Pa gefnogaeth sydd ei hangen arnoch i ddeall cyfleoedd cydweithio?
- I ble fyddech chi'n mynd i ddod o hyd i'r gefnogaeth honno fel arfer?

C.3. **Integreiddio wrth gaffael**
- I ba raddau y mae caffael wedi'i integreiddio â gweddill y sefydliad?
- Pa gymorth sydd ei angen arnoch i godi rôl caffael yn y sefydliad?
- Beth yw'r rhwystrau rhag integreiddio?

C.4. **Cost isaf yn erbyn gwerth**
- Un o'r heriau mwyaf a amlygwyd yn yr arolwg oedd symud i ffwrdd o'r gost isaf, pa mor hawdd ydych chi'n credu fydd symud o MEAT i MAT yn eich sefydliad/categori gwariant?
- Beth arall sydd angen i Lywodraeth Cymru ei wneud i helpu gyda'r cyfnod pontio hwn?

C.5. **Cyfathrebu**
- Amlygwyd cyfathrebu fel maes ar gyfer gwella yn yr arolwg, sut y gall y CCM gyfathrebu'n well â chi?
- Pa un yw'r ffordd orau o gael gwybodaeth a diweddariadau?

C.6. **Sero Net**
- Pa mor wybodus a pharod ydych chi gyda'ch caffael i gyrraedd y targedau sero net a osodwyd gan Lywodraeth Cymru? Pa gategori gwariant sydd fwyaf perthnasol i chi?
- Pa gymorth a chefnogaeth sydd eu hangen arnoch?
- Yn eich barn chi, pa rôl sydd gan dîm CCM Llywodraeth Cymru wrth wneud y cynnydd hwn?

C.7. **Caffael digidol**
- Pa mor ddatblygedig yw **caffael digidol** yn eich adran / sefydliad?
- *Sut gall y CCM eich helpu i ddatblygu'r agenda pwysig hwn*?
- Beth yw'r rhwystrau o ran digideiddio?

C.8. **Caffael Cynaliadwy**
- I ba raddau ydych chi wedi datblygu o ran gwreiddio'r pedwar amcan llesiant yn eich caffael?
- Pa un sydd fwyaf heriol i chi a sut ydych chi'n ceisio goresgyn hynny?
- I ba raddau ydych chi'n disgwyl i Lywodraeth Cymru eich cefnogi?

C.9. **Cynlluniau Gweithredu**
Yn 2021, gofynnodd y Gweinidog i arweinwyr cyrff cyhoeddus ddatblygu a chyhoeddi cynlluniau gweithredu sy'n cyd-fynd â DPCC i gefnogi gwell darpariaeth gaffael o flaenoriaethau ar y lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

- Yn eich sefydliad, beth sydd wedi gweithio a beth oedd fwyaf heriol?
- Pa gymorth ydych chi'n ei ddisgwyl gan dîm y CCM i ddatblygu strategaeth (os o gwbl)?

**C.10. Cwestiwn clo**

- A oes unrhyw faterion dybryd yr hoffech i mi dynnu sylw atynt a'u rhannu â Llywodraeth Cymru nad wyf wedi'u cynnwys yn y cyfweliad hwn?

Mae pob un o gwestiynau'r cyfweliad bellach yn cael eu cyflwyno gyda'r canfyddiadau a'r sylwadau allweddol.

### 2.2.1. Caffael sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau

- Roedd llawer o'r rhanddeiliaid yn cael trafferth gyda hyn fel y cwestiwn agoriadol, gydag un rhanddeiliad yn ei ddisgrifio fel "*term aneglur*" (WE6). Yn gyffredinol, roedd cyfranogwyr y cyfweliad wedi'u drysu gan y cwestiwn hwn ac yn ei gysylltu ar unwaith â phryderon ynghylch mesur, ond "*beth yw'r canlyniadau a sut mae eu mesur? Nid oes un ateb yn addas i bawb*." (WE4); "*Nid ydym yn wych am fesur canlyniadau*" (FF1).

- Er bod llawer o'r rhai a gafodd gyfweliad yn cysylltu'r canlyniadau ag ymdeimlad o bwrpas, roeddent yn pwysleisio bod angen mwy o "*eglurder pwrpas*" (TH2). Nid oedd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid a gafodd gyfweliad yn glir ynghylch beth allai'r pwrpas neu'r canlyniadau fod. Roedd rhai yn cysylltu canlyniadau â'r strategaeth gorfforaethol, ond prin oedd y rhai a gysylltodd ganlyniadau â'r nodau llesiant neu a soniodd o gwbl am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Crybwyllwyd buddion cymunedol yn aml gan randdeiliaid, ond roedd llawer yn ansicr o'r gwahanol dermau a ddefnyddir a sut i 'ddatod' pob un i'w helpu i ddeall effaith ehangach caffael, neu sut mae'r termau hyn yn cysylltu â'i gilydd.
- "*Ceir datgysylltiad sy'n peri pryder rhwng canlyniadau gwerth cymdeithasol a sut y cânt eu diffinio gan bob corff cyhoeddus yng Nghymru. Golyga hyn fod busnesau bach a chanolig yn aml yn ei chael hi'n anodd deall gofynion canlyniadau gwerth cymdeithasol gan brynwyr – disgwylir iddynt ddefnyddio gwahanol offer ar gyfer mesur ac ati ac mae'r mater hwn yn berthnasol i ddeall egwyddorion yr Economi Sylfaenol a materion rheoli'r gadwyn gyflenwi*" (TH8).
- Cadarnhaodd trafodaethau'r cyfweliad fod taer angen i awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill weithio mewn "*ffordd fwy symbiotig*" gyda chyflenwyr, am eu bod yn "*chwarae rhan hanfodol*" wrth gyflawni caffael sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau (TH1).
- *"Dwi'n meddwl ein bod ni'n eithaf disymud yn ein harferion yn aml... tybiaf fod angen i ni geisio gwneud pethau'n wahanol a bod yn llai rhagnodol a meddwl mwy am ganlyniadau*

*a bydd gennym rai enghreifftiau da ohono lle rydyn ni wedi defnyddio pethau fel deialog gystadleuol neu weithdrefn gystadleuol gyda chyd-drafod dim ond i geisio taclo pethau. Ond mae'n debyg nad yw hynny mor gyffredin ag yr hoffem, oherwydd mae ychydig o ofn am y cymhlethdod sy'n dod gyda hyn.*" (TH5).

- Nid yw'r heriau yn perthyn i awdurdodau lleol yn unig. "*Yn fy mhrofiad i, yn sicr gyda'r rhanddeiliaid rydw i wedi gweithio â nhw, oherwydd mae llawer o bobl yn dal i fod yn draddodiadol gaeth i fanyleb sy'n seiliedig ar fewnbwn. Rhan o fy rôl i a rôl fy nhîm yw ceisio addysgu ein rhanddeiliaid a'n cwsmeriaid i feddwl y gallech gael gwell canlyniad wrth nodi mewn ffordd sy'n seiliedig ar allbwn ... ac mae'n rhaid i ni brofi bod hynny'n gweithio i lawer o'n cwsmeriaid a'u trosi*" (TH8).

*Rôl y CCM*

- Un canlyniad caffael mesuradwy iawn yw'r "*arbedion cost diriaethol... bydd canlyniadau eraill [cymdeithasol, amgylcheddol, a diwylliannol] yn mynd yn anodd eu mesur... ond efallai mai diffyg profiad [ein] tîm caffael sy'n gyfrifol am hynny"* (MO3).
- Pwysleisiodd rhanddeiliaid fod canolbwyntio ar ganlyniadau yn faes blaenoriaeth pwysig, ond mae'n gofyn am y meddylfryd cywir a'r offer cywir - ac roeddent yn teimlo nad yw'r naill na'r llall ohonynt yng Nghymru eto. Roedd y rhanddeiliaid a gafodd gyfweliad yn credu bod y CCM yn ddigon cyfrifol a phrofiadol i ddatblygu'r offer [cywir] ac i roi eglurder ar y canlyniadau a ffefrir i Gymru.
- "*Mae caffael sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn ymwneud â'r nwyddau a gewch drwy'r gadwyn gyflenwi, y cyfleoedd y maen nhw'n eu rhoi i chi, a allai fod yn arloesol, a allai fod yn lleoliadau myfyrwyr, a allai fod, yn ysgubiad eang o fuddion cymunedol.*" (MO3).
- "*Un o'r pethau gorau y gallwch chi ei wneud i gaffaelwyr os ydych chi am gyflawni pethau, yn fwy effeithiol wyddoch chi, yw gwneud y cleientiaid yn ymwybodol o'r amserlenni - mae gennym ystod eang o gleientiaid mewnol. Felly mae hynny (diffyg ymwybyddiaeth am amserlenni) i mi yn rhwystr ac o ran hynny byddai rhywfaint o arweiniad clir gan Lywodraeth Cymru o ran nodiadau (i randdeiliaid heblaw rhai caffael) yn fuddiol*" (TH4).

## 2.2.2. Caffael cydweithredol

- Roedd caffael cydweithredol yn cael ei ystyried yn wahanol gan randdeiliaid a gafodd gyfweliad. Roedd rhai yn deall y term, 'caffael cydweithredol' fel mwy na sefydliad sy'n caffael ar y cyd, tra bod llawer o randdeiliaid a gafodd gyfweliad yn cyfeirio at y cydweithio rhwng caffael a'r gadwyn gyflenwi.

- "*Ydw, yn anffodus, rwy'n credu ei fod yn un o'r pethau hynny sy'n swnio'n dda mewn egwyddor ac os ydych chi'n ei ddadansoddi, mae ganddo lawer o fuddion posibl, ond hyd yn hyn nid wyf wedi gweld neb yn gwireddu'r buddion hynny heb lawer o boen yn ei sgil. Yr unig enghreifftiau... dwi'n eu gweld, neu dwi wedi clywed amdanyn nhw yn ddiweddar, roedd gwersi wedi'u dysgu... peidiwch â'i wneud felly eto*" (TU8).
- Roedd llawer yn y sector cyhoeddus yn derbyn bod angen iddynt gydweithio, ac yn barod i wneud hynny, er bod llawer yn ansicr 'sut' y mae'r trefniadau hyn yn cael eu rheoli orau.
- "*Cyn i mi ymuno â'r sefydliad hwn, roedd caffael cydweithredol yn rhywbeth rydych chi'n siarad amdano mewn amgylchedd diogel, ond ni fyddech chi byth yn datgelu unrhyw beth... Rwy'n credu bod [hwn] yn beth gwych i'n sector ac yn y sector cyhoeddus ehangach am fod cyfleoedd llawer gwell [ar gyfer caffael cydweithredol]* (MO3).
- Roedd rhai rhanddeiliaid yn teimlo bod y modelau hŷn fel Consortiwm Prynu Cymru a'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (NPS) wedi gadael etifeddiaeth o gysylltu cydweithredu ag enillion effeithlonrwydd ond, yn bwysig, roedd llawer o randdeiliaid a gafodd gyfweliad yn ansicr a yw'r trefniadau cydweithredol hyn yn dal i fodoli. "*Nid wyf yn gwybod i ba raddau y mae Consortiwm Prynu Cymru yn dal i fodoli neu beidio*" (TH4).
- Roedd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid fel petaent yn cydnabod manteision cydweithio, "*yn hytrach na gwanhau'r farchnad pan oedd dau ohonom yn tendro ar yr un pryd, rydym wedi dod ynghyd, i rannu a chynnig mwy o gyfle i un darparwr…wrth i'n sector gael ei herio fwyfwy, rydym yn mynd i edrych am fwy o gyfleoedd caffael cydweithredol i sicrhau gwerth, gwerth cyfunol i bob un [sefydliad] ac i Gymru*" (MO3).
- Roedd rhai rhanddeiliaid yn teimlo bod caffael yn cydweithio'n fewnol yn fwy effeithiol o'i gymharu ag adrannau eraill yn eu sefydliadau.
- Roedd rhanddeiliaid o sefydliadau gofal iechyd a gafodd gyfweliad yn teimlo'n falch eu bod "*ar flaen y gad o ran cydweithio*" ledled Cymru (FI1) a hynny i raddau helaeth oherwydd yr ymateb cyflym i'r argyfwng Covid sy'n dystiolaeth o'r arweinyddiaeth hon.
- Fodd bynnag, fe gyfaddefon nhw, er eu bod yn dda am gydweithio mewn lleoliadau gofal iechyd, nad oeddent cystal am gydweithio â'r sector cyhoeddus ehangach ac roeddent yn derbyn bod angen llawer mwy o ymdrech i ddeall y buddion y byddai'r ffordd hon o weithio yn eu cynnig i bobl sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru.
- Pwysleisiwyd ymhellach fod caffael iechyd a gofal cymdeithasol yn fwy arbenigol ac nid oeddent yn teimlo bod y CCM a chyrff cyhoeddus eraill yn ei ddeall yn ddigonol i gydweithio'n effeithiol (TU1).

- Ystyriwyd hefyd fod cydweithio'n fwy heriol o ran caffael arloesedd, "*Rydym yn ceisio datrys ein problemau ein hunain yn hytrach na mynd i'r farchnad*" (FI1).
- Roedd rhanddeiliaid iechyd a gofal cymdeithasol a gafodd gyfweliad yn awyddus i ddysgu mwy am y ffyrdd y gallent ddefnyddio cydweithio 'o fewn y gyfraith' i arloesi mwy.

## Rôl y CCM

- Er bod rhanddeiliaid yn deall rhai o fanteision caffael cydweithredol, cafodd eraill eu digalonni'n llwyr oherwydd profiadau gwael yn y gorffennol. Yn ystod y cyfweliadau, gwnaethom astudio'r rhesymau posibl dros hynny, ac roedd yn amlwg bod cael arweiniad clir ar gyfer rheoli trefniadau cydweithredol yn allweddol, yn ogystal â deall pryd i gydweithio, a phryd i beidio â chydweithio.
- "*O ran cefnogaeth, yn enwedig gan Lywodraeth Cymru, gallent roi barn ynghylch y gwahanol bleidiau a allai o bosibl weithio gyda'i gilydd. Gallent edrych ar hynny, ac efallai hyd yn oed cymell y pleidiau hynny i weithio gyda'i gilydd*" (TH4).
- *"… Rwyf wedi bod yn rhan o gydweithio lle nad yw awdurdod lleol arall yn arwain wedi cynhyrchu canlyniadau a oedd yn cynnwys fy nghyflenwyr lleol, ac rwy'n credu mai'r rhan honno sydd weithiau'n cael ei cholli os ydw i'n onest... Gwerth ychwanegol, ymgysylltu â'r farchnad yn gynnar, rheoli perthynas cyflenwr ... Byddwn i... am ddod o hyd i ffordd o sicrhau bod yr holl gyflenwyr lleol yn cymryd rhan, dyna'r rhan yr wyf yn credu ein bod yn ei cholli, a hefyd bod eich canlyniadau gwerth cymdeithasol/lles yn dod yn ôl atoch chi hefyd.* (TH3).
- Er bod caffael cydweithredol (h.y. mwy nag un sefydliad yn caffael ar y cyd) yn gysyniad sydd wedi hen ennill ei blwyf, mae cydweithio rhwng caffael a'r farchnad gyflenwi yn cael ei amlygu fel maes sy'n gofyn am gymorth ac arweiniad brys gan y CCM.

## 2.2.3. Integreiddio wrth gaffael

- Er gwaethaf yr awgrymiadau a ddefnyddiwyd, roedd y cwestiwn hwn yn cael ei gamddehongli yn aml. Cyfeiriodd nifer o'r rhai a gafodd gyfweliad at integreiddio llorweddol, ar draws sefydliadau yng Nghymru - "*Nid ydym wedi gwneud y gorau o lywodraethu gwlad fechan*" (FI1).
- Wrth drafod integreiddio caffael o fewn y sefydliad, roedd rhanddeiliaid yn sylweddoli mai un o'r heriau mwyaf a oedd yn atal integreiddio oedd camosod strategaeth o fewn y sefydliad (TH6) a systemau gwybodaeth reoli annigonol i lywio'r broses o wneud penderfyniadau.

- **"***Nid yw caffael yng Nghymru wedi'i integreiddio o gwbl ac mae angen i bawb ym maes caffael (nid Llywodraeth Cymru yn unig) wneud mwy i wella sefyllfa strategol a dealltwriaeth o ymgysylltu'n gynnar â chyflenwyr a rhoi gwybod am biblinellau sydd ar y gweill*" (TH1).
- Roedd timau caffael llai o faint a gafodd gyfweliad yn teimlo fel "*perthnasau oedd wedi mynd yn angof... heb lais*" (MO3).
- *"Nid yw meysydd busnes yn ymgysylltu'n ddigon cynnar â chaffael, ac ychydig iawn o amser i gynnal ymarfer a roddir i fanylebau a cheisiadau i fynd allan i dendr. Does dim sedd ar y bwrdd uchaf, a byddwn i'n dweud bod hynny, mae'n debyg, yn wir am nifer o awdurdodau lleol llai "(*TH3).
- "*Mae angen codi proffil caffael oherwydd goblygiadau ehangach caffael gwael na ddeellir o fewn y sefydliad. Dyw arweinwyr ddim yn sylweddoli faint o drafferth y gellir ei achosi drwy beidio â chydymffurfio – e.e. dim rheoli contractau – torri gwariant – heb fod yn ymwybodol o'r broses - cydymffurfio*" (WE7)

## Rôl y CCM

- Mae hyn yn ymwneud â'r strategaeth gyfathrebu yn y dyfodol. Targedwyd cyfathrebu blaenorol yn bennaf at y gymuned gaffael. Wrth symud ymlaen ac yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd yn yr arolwg a'r cyfweliadau, gallai'r CCM ystyried gwybodaeth a diweddariadau perthnasol i weithwyr proffesiynol ac arweinwyr heblaw rhai caffael.
- Cytunodd y gymuned gaffael fod proffil caffael wedi cael ei gynyddu'n strategol ers pandemig Covid. Fodd bynnag, roedden nhw'n ofni ein bod yn troedio'n ôl i'r 'hen ffyrdd' yn hytrach na dysgu o'r gwersi caled yn ystod cyfnod y pandemig. Roeddent yn teimlo y gallai proffil proffesiynol caffael gael ei gyfyngu gan ei deitl ac nad yw'r term masnachol wedi cael ei ddeall yn eang eto.

## 2.2.4. Cost isaf yn erbyn gwerth

- Roedd rhanddeiliaid yn teimlo'n amheus am y cwestiwn hwn a disgrifiodd un rhanddeiliad y sefyllfa bresennol fel "*ras i'r gwaelod o hyd*" (TH1) lle mae'r gost isaf yn ennill, yn hytrach na mynd ar drywydd gwerth ehangach uwchlaw popeth mewn termau economaidd.
- Teimlai nifer o randdeiliaid yn gryf fod cael gwared ar y term 'economaidd' o'r tendr mwyaf manteisiol (h.y. o MEAT i MAT) yn fater o ddileu term yn unig ac na fydd hynny'n ddigon i newid prosesau ac ymddygiadau caffael.

- "*Fodd bynnag, os oes gan yr awdurdodau contractio hynny fap ffyrdd arfer gorau i'w ddilyn a'u bod yn gwreiddio'r pwysigrwydd hwnnw yn eu contractau, bydd y gwerth MAT yn sicrhau elw economaidd esbonyddol, sylfaenol a fydd yn llawer mwy nag unrhyw arbedion mympwyol / canfyddedig a wneir ar/o ddechrau tymor contract*" (TH1).
- Ysgogodd y cwestiwn hwn drafodaeth ehangach ar Ddeddf Caffael (2023) ac nid oedd rhanddeiliaid yn ei hystyried yn ddigon radical gyda rhai yn ei chael hi'n anodd gweld y gwahaniaeth y bydd y ddeddfwriaeth newydd yn ei gael - neu [yn eu barn nhw] y mae angen iddi ei gael.

### Rôl y CCM

- Cydsyniodd y rhanddeiliaid a gafodd gyfweliad fod angen diffiniad clir o'r disgwyliadau gwerth ehangach ar lefel genedlaethol [Cymru] ac mai hyn, yn ôl rhanddeiliaid, yw rôl y CCM.
- "*Y cwestiwn mawr yw "beth yw gwerth?" Byddai angen diffinio gwerth, oherwydd os yw'n rhywbeth y gallwch chi ei fesur a'i sgorio yn ei erbyn, yna mae angen diffiniad arno a byddwn i'n dadlau y gallai'r rhan fwyaf o bobl ddehongli gwerth, yn rhesymol, ychydig yn wahanol yn dibynnu ar eu cyd-destun, ac felly rwy'n credu y byddai cael dogfen sy'n sôn am werth, sy'n diffinio gwerth ac yn ei egluro yng nghyd-destun caffael, o gymorth enfawr i bawb dan sylw.*" (TH4).
- Roedden nhw'n disgwyl canllawiau gyda diffiniadau rhanbarthol a lleol datblygol ond fe wnaethon nhw godi pryderon ynghylch mesurau a oedd yn cael sylw mawr gyda'r drafodaeth hon - sut a beth ydyn ni'n ei fesur - pwy sy'n penderfynu beth rydyn ni'n ei fesur?

### 2.2.5. Cyfathrebu

- Yn wahanol i'r arolwg, roedd llawer o randdeiliaid yn teimlo bod yr wybodaeth a gafwyd drwy e-bost gan y CCM yn ddigonol ac atebodd y rhan fwyaf 'ie' i gael diweddariadau e-bost rheolaidd gan y CCM a'r llywodraeth ganolog.
- Teimlwyd bod cyfathrebu wedi gwella ers cyfnod y pandemig [Covid-19]. Mae cyfarfodydd tîm rheolaidd a mawr yn Llywodraeth Cymru bellach sy'n helpu i hybu ymwybyddiaeth am ddiweddariadau caffael ac sy'n meithrin rhwydwaith o gymorth (WE6).
- Fodd bynnag, roedd rhai yn cyfaddef nad oeddent yn darllen yr e-byst a phwysleisiwyd y defnydd o iaith. *Mae'r iaith yn gallu bod yn eithaf anodd i bobl nad ydynt yn y maes*

*caffael ei dehongli... Rwy'n credu ein bod ni'n gorgymhlethu'r iaith rydyn ni'n ei defnyddio* (TH6).

- "*Mae awdurdodau lleol megis ynysoedd bach mewn ffordd, bydd ein ffordd ni o'i wneud yma (a fydd yn amrywio'n fawr o un awdurdod i'r llall), bydd arfer da (wedi'i rannu), a bydd hefyd yr hyn sy'n dod gan Lywodraeth Cymru o ran arweiniad a hyfforddiant. Oni bai ein bod yn siarad am ddeddfwriaeth, byddwch yn dal i weld arferion gwaith gwahanol iawn*" (TH3).
- "*…y Ddeddf Caffael newydd, yr wyf yn credu bod pawb ychydig yn nerfus yn ei chylch, felly cyfathrebu cynnar ar sut yn hytrach na ... yr hyn sydd ei angen arnom yn awr*" (WE1).
- "*Mae* [cyfathrebu] *uniongyrchol un i un yn gadarnhaol iawn bob tro."* (TH7).

## Rôl y CCM

- Dywedodd un rhanddeiliad y dylai'r CCM gyfathrebu'n rheolaidd ag arweinwyr gweithredol sefydliadau angori yn hytrach na thimau caffael yn unig.
- Mae rhai yn teimlo mai cyfathrebu a chefnogaeth unffordd a gynigir gan y CCM - h.y. wedi'u hysgogi gan y sector cyhoeddus ehangach yn gofyn am gymorth, ac felly fe wnaethant fynegi y bu'r gefnogaeth yn ddi-fai.
- Awgrymwyd nad oedd y CCM yn rhagweithiol yn "*estyn allan*" (TH7), meithrin cysylltiadau nac ymgynghori â'r sector cyhoeddus ehangach yn rheolaidd.
- Cododd y cyfweliadau fater llywodraethu gyda rhai rhanddeiliaid y cyfwelwyd â hwy heb wybod am rôl y CCM, na chydnabod ei haelodaeth ychwaith.
- Ymhlith yr awgrymiadau gan randdeiliaid cafwyd *"cylchlythyrau, blogiau a phodlediadau chwarterol neu fisol, a gellir cryfhau negeseuon pwysig trwy rwydweithiau a fforymau sefydledig. Byddai dod ag arweinwyr sefydliadau neu sectorau gwahanol ynghyd yn dod â mwy o gyfleoedd dysgu*" (TH1).
- "*Un fersiwn o'r gwirionedd mewn un lle ac mewn modd amserol…Maen nhw'n anfon popeth allan ac felly mae'n rhaid i chi chwilio'n ddwfn i ddarganfod neu weithio gyda chwmni cyfreithiol neu'ch ... cyfreithiwr... Nid wyf yn credu bod hyn yn berthnasol i ni, ond a ydy o?*" (MO3).
- *"Dwi'n meddwl bod e-byst yn ffordd dda, ond dwi'n meddwl eu bod nhw'n cael eu colli … dwi ddim yn credu bod eu teitlau nhw'n helpu chwaith. Dwi ddim yn credu eu bod nhw'n dweud yn ddigon pendant bod rhaid i chi eu darllen. Mae hyn yn bwysig. Rwy'n credu bod angen [cyfathrebu] [cylchlythyrau] trwy brif weithredwyr a chyfarwyddwyr cyllid*

*oherwydd bod cyfarwyddwyr cyllid yn gyfrifol am y swyddogaeth gaffael ac yna mae hynny'n allweddol iawn... dyna lle mae ein negeseuon yn mynd ar goll* (WE7).

### 2.2.6. Sero Net

- Roedd pryder cyffredinol am yr oedi cyn datblygu i gyrraedd y targedau sero net a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, "*ymhell ar ei hôl hi*" (TH1) ond pwysleisiodd un arall fod y targed yn "*anghyraeddadwy*".
- Pwysleisiodd eraill "*nid ydym yn ei ddeall ... Peidiwch â gadael y cyfan wrth ddrws caffael fel mentrau eraill*" (TH7). "*Mae yna gymaint y disgwylir i ni ei wneud. Ar ben popeth arall, nid wyf yn credu bod unrhyw un yn ei wneud yn iawn oni bai bod ganddynt dîm ymroddedig llawn*" (MO3).
- Cydsyniwyd bod y sefydliad cyfan yn gyfrifol am sero net ac mae rhanddeiliaid yn disgwyl i'r CCM gymryd arweinyddiaeth weithredol wrth ddatblygu offer mesur sy'n gyson ar draws sector cyhoeddus Cymru.
- Awgrymwyd y byddai mwy o ymgynghori â'r sector preifat yn cyflymu ac yn gwella'r broses hon.
- Roedd pryderon mawr am yr 'her gost' a sut y byddai rhai o'r gofynion datgarboneiddio yn cael eu hariannu - "*prin ein bod wedi dod i delerau â cherbydau trydan … mae datgarboneiddio ein hystadau yn ddrud*!" (WE2) - roeddent yn teimlo bod rhaid i'r cyllid ddod gan Lywodraeth Cymru.
- Roedd y prif bryderon yn ymwneud â mesur cyson a Chwmpas 3.

### Rôl y CCM

- Mae'n rhaid i sero net a lleihau carbon fod yn fandad yn hytrach na rhywbeth braf i'w wneud.
- Roedd gan y gymuned gaffael farn amrywiol - rhai yn teimlo eu bod nhw'n arloesi yn natblygiad offer ac arweiniad, ac eraill nad oeddent hyd yn oed wedi dechrau'r daith ac yn ei weld fel baich arall ar wneud penderfyniadau. Mae'r gymuned gaffael yn chwilio am gyfeiriad canolog gydag offer ac arweiniad clir a hawdd eu defnyddio gan y CCM.
- Cwmpas 3 oedd y pryder mwyaf, hyd yn oed gan y rhai mwyaf profiadol yn y maes hwn, ac felly dylai fod yn faes ffocws i dîm y CCM. Roedd cyfranogwyr y cyfweliad yn cydnabod bod angen dysgu gan y sector preifat wrth symud ymlaen.
- Yr ail bryder mawr oedd buddsoddi. O ble daw'r cyllid ychwanegol sydd ei angen, ac maen nhw'n disgwyl atebion gan y CCM.

## 2..2.7. Digideiddio

- Roedd y cyfweleion yn gyfarwydd ag amrywiaeth o lwyfannau i gefnogi gwahanol gamau'r broses gaffael ond o ran cael eu digideiddio'n llawn, roedd llawer yn cytuno bod "*caffael ymhell ar ei hôl hi* [o gymharu â swyddogaethau eraill] *gyda thechnoleg*" (TH4)
- Roeddent yn gweld bod Llywodraeth Cymru yn fwy datblygedig yn ddigidol na'r sector cyhoeddus ehangach. Cymeradwyodd un o gyfranogwyr y cyfweliad (WE6) ddatblygiadau sylweddol gyda chasglu data canolog ar gyfer adrodd ar reoli a gwneud penderfyniadau, ond ni wnaeth cyfranogwyr awdurdodau lleol fyfyrio cystal ar y sefyllfa hon. Nid yw digideiddio a defnyddio data integredig yn gyffredin yn y sector cyhoeddus ehangach.
- Rhannodd caffael a chyflenwyr eu bod yn dibynnu'n helaeth ar GwerthwchiGymru, ac eto roedd y gallu (2 berson) i ddatblygu'r platfform a bod yn ymwybodol o ddatblygiadau arloesol yn bryder ac yn destun rhwystredigaeth a deimlir gan lawer.
- Pan gafodd y system drafferthion, roedd prynwyr yn cael eu cynghori i ddefnyddio e-bost ar gyfer cael cynigion ac ar gyfer cyfathrebu â chyflenwyr drwy'r broses dendro.
- Y rhwystr mwyaf a nodwyd gan bob rhanddeiliad a gafodd gyfweliad oedd diffyg buddsoddiad ariannol mewn digideiddio yng Nghymru.
- Rhoddwyd pwyslais ar ddiffyg cynllunio olyniaeth a rheoli contractau. Roedd y pwynt hwn yn gysylltiedig â chaffael digidol a datblygu proffil strategol caffael a dylai fod yn faes blaenoriaeth i'r CCM.
- Nododd WE6 achosion lle'r oedd bylchau rhwng contractau yn gadael y sector cyhoeddus heb gyflenwad am hyd at chwe mis - mae hyn yn peri pryder mawr pan fo'n ymwneud â gwasanaethau strategol fel rheoli, storio a gwaredu data. Awgrymwyd y byddai rheoli contractau sylfaenol yn atal y mater neu o leiaf yn codi'r rhybudd i gynllunio yn briodol. O ystyried y sympiau data a ddefnyddir gan bob adran, gallai hyn greu anhrefn yn gyflym ac roedd yn peri pryder.

## Rôl y CCM

- "*…mae angen mwy o gysylltedd rhwng y systemau i ddarparu gwell gwybodaeth Busnes i ni"* (MO1, MO2).
- "*Mae angen i'n llywodraeth ganolog, ein tîm canolog gymryd mwy o ran yn hynny, ac mae angen iddynt fod yn fwy arloesol eu hunain yn yr hyn y gallwn ei wneud. Ond wyddoch chi, rydym wedi ceisio a methu... Nid wyf yn deall pam nad oes gennym offeryn digidol ar gyfer Cymru, [un] y gallwn ni i gyd ei ddefnyddio gyda'r holl adroddiadau hyn a gofynion newydd o dan y ddeddfwriaeth newydd ac ati; ni fu erioed well amser ond yr*

*unig beth ddywedwn yw [bod] rhaid iddo fod yn gyfartal i'r holl sefydliadau ac nid dim ond ar gyfer y rhai dethol. Efallai y bydd angen ychydig mwy o gydweithio ar y deallusrwydd artiffisial electronig hwn ym maes caffael oherwydd credaf fod gennym gyfle i [ddefnyddio digideiddio i] wirioneddol ysgogi'r proffesiwn yn ei flaen*" (TH7).

- Roedd pob un o'r cyfweleion yn teimlo mai cyfrifoldeb y CCM oedd sicrhau bod y seilwaith digidol priodol ar waith a bod y systemau'n 'siarad â'i gilydd'.
- Pwysleisiodd WE6 y dylai dylanwad a chyfrifoldeb yrru'r agenda pwysig hwn yng Nghymru.
- Rhoddodd y rhanddeiliaid a gafodd gyfweliad gryn bwyslais ar y ffaith fod integreiddio digidol yn hanfodol i gaffael effeithiol, ac nad oeddent yn teimlo bod hyn wedi'i ddatblygu a'i gyflawni'n effeithiol eto.

### 2.2.8. Caffael cynaliadwy

- Sylwadau'r cyfranogwyr cyfweliad hynny oedd eu bod yn ceisio 'gwneud y peth iawn' a deall goblygiadau ehangach gwerth am arian.
- Fodd bynnag, roedd mwy o amheuaeth ynghylch y term llesiant y cyfeiriwyd ato gan un rhanddeiliad fel "gweithred symbolaidd" (FI1).
- I rai, ysgogodd y cwestiwn hwn drafodaethau manwl am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a sut mae cyrff cyhoeddus [o hyd] yn ei chael hi'n anodd cymhwyso'r egwyddorion i gaffael – "*Byddaf yn mynd at fy nghydweithiwr neu un o'i gydweithwyr dim ond i ofyn cyngor ar sut y gallaf ei gysylltu â'r hyn yr ydym yn ei gaffael"* (MO1). "*Mae cynaliadwyedd a lles yn aml yn cael eu nodi mewn tendrau, ond nid ydynt yn cael eu hesbonio'n glir*" (TH1).
- Diwylliant o les yw'r mwyaf heriol o hyd i'w wreiddio wrth gaffael, ac mae'n haws ei weithredu mewn rhai categorïau nag eraill.

### Rôl y CCM

- Roedd y cyfweleion yn cydsynio nad cyfrifoldeb y tîm DPP oedd ymgorffori cynaliadwyedd a diffinio llesiant (cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol, diwylliannol).
- "*Mae gan bob un ohonom gyfrifoldeb dros ... [ymgorffori cynaliadwyedd], nid yn unig yn y diwrnod gwaith ond yn ein bywyd yn gyffredinol. Ac rwy'n credu mai dyna lle rydyn ni'n ei golli... Pam fydden ni'n rhoi hynny wrth ddrws Llywodraeth Cymru*?" (TH7).
- Mae angen cymorth mwy ymarferol ar randdeiliaid wrth gysylltu canllawiau Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol i ganlyniadau mwy ystyrlon drwy gaffael.

- "*Rwy'n credu mai codi ymwybyddiaeth ydyw i mi a, sut ddyweda i, efallai rhannu arfer gorau a chyfaill beirniadol... efallai ein hannog [ni]. Ond edrychwch, nid ydym yn rhannu nac yn cefnogi ein gilydd*" (TH7).
- Roedd materion ieithyddol hefyd yn destun pryderon a godwyd, gyda gwahanol randdeiliaid yn mabwysiadu gwahanol ymadroddion (gwerth cymdeithasol, lles, ac ati). Roeddent yn teimlo y dylai strategaeth gaffael genedlaethol ddod â mwy o eglurder yn hyn o beth.
- "*Mae Llywodraeth Cymru yn y sefyllfa freintiedig honno lle mae ganddyn nhw oruchwyliaeth lwyr... ac felly os ydych chi am siarad am effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, mae ganddynt ddylanwad sylweddol ... Rwy'n credu po fwyaf y gallant ei ychwanegu (capasiti a gallu), gorau i gyd oherwydd eu sefyllfa strategol*" (TH4).

## 2.3. Cynllun Gweithredu

- Er bod y rhan fwyaf o'r rhai a holwyd yn teimlo nad oedd angen cymorth arnynt gyda datblygiad strategol, yn y trafodaethau cyfweliad, ychydig iawn oedd yn cydnabod y cysylltiadau allweddol rhwng strategaeth a chynllun gweithredu.
- Dim ond 4 o'r 27 a holwyd a gytunodd fod ganddynt gynllun gweithredu caffael.
- Roedd llawer yn credu bod yna gynllun gweithredu ar lefel sefydliadol.
- Roedd rhai rhanddeiliaid yn cydnabod bod dogfennau polisi eraill yn rhan o'r hyn y maent yn ei ddeall i fod yn gynllun gweithredu.
- Dangosodd trafodaethau cyfweliad nad yw'r rhan fwyaf o randdeiliaid yn ymwybodol o'u gofynion i ddatblygu a chyhoeddi cynllun gweithredu caffael - ac nad ydynt ychwaith yn cydnabod gwerth datblygu un.

# 3. CAM 3

## 3.1 Rôl strategol caffael cyhoeddus yng Nghymru

- Cyn yr argymhellion, mae pwyntiau allweddol i'w hychwanegu am ddatblygiad strategol caffael yng Nghymru, ac yn gysylltiedig â'r datblygiad strategol, nododd rhanddeiliaid fod cyfleoedd a gollwyd sy'n werth eu tanlinellu.

- Roedd cyfranogwyr y cyfweliad sy'n gweithio ym maes caffael yn credu'n gryf fod y pandemig (Covid-19) wedi helpu i godi proffil caffael a bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud ers hynny i wella sefyllfa strategol caffael yn y sefydliad.
- Fodd bynnag, roedd rhanddeiliaid heblaw rhai caffael yn dal i'w ddisgrifio fel "*ceidwadol*" (FF1) a "*swyddogaeth annibynnol nad yw pobl ond yn mynd iddi pan fydd angen rhywbeth arnynt*" (TH2).
- Crybwyllwyd nifer o weithiau yn ystod y cyfweliadau fod caffael yn Llywodraeth Cymru yn teimlo fel petai wedi'i wahanu oddi wrth bopeth arall. Roeddent yn teimlo bod angen mynd i'r afael â hyn er mwyn cyflymu cynnydd mewn mannau eraill yn sector cyhoeddus Cymru. Mae'r pwynt hwn hefyd yn ymwneud ag integreiddio.
- Mae rhai cyrff cyhoeddus wedi buddsoddi mewn caffael ac wedi gweld budd gwneud hynny - *"Dw i wedi treblu maint y tîm mewn pedair blynedd, a oedd yn anhygoel, ac er y bu'n anodd recriwtio... os oes unrhyw beth sy'n dangos dylanwad a'r siâp sydd ganddo (Caffael) nawr, dyma ni"* (MO3).
- Ymhellach, pwysleisiodd rhanddeiliaid yr angen brys am gydweithio wedi'i yrru gan bwrpas ar gyfer dyrchafu rôl a chwmpas caffael yn strategol o fewn ac ar draws sefydliadau yn sector cyhoeddus Cymru. Roedd y rhanddeiliaid a gafodd gyfweliad yn credu y dylai'r CCM gyfarwyddo ac arwain cyrff cyhoeddus i ddeall lle bydd cydweithio yn sicrhau'r budd a'r gwerth mwyaf.

## 3.2. Cyfleoedd a gollwyd

- Yn yr arolwg a'r cyfweliadau, cytunwyd yn llawn fod sero-net, caffael sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a digideiddio yn feysydd blaenoriaeth brys y dylai'r Gyfarwyddiaeth Caffael a Masnachol (CCM) fynd i'r afael â hwy.
- Roedd rhanddeiliaid yn teimlo eu bod yn gwastraffu ymdrechion i ddatblygu offer ac arweiniad yn unigol, a bod dull canolog yn fwy dymunol. Roeddent yn teimlo y byddai hyn yn helpu i feithrin gallu, cefnogaeth a'r rhannu gwybodaeth sydd ei angen ar frys ar y sector cyhoeddus yng Nghymru.
- "Rydym megis chwarae ar hyn o bryd" [o ran lleihau carbon a sero net] yn ôl un rhanddeiliad.
- Roedd cyfranogwyr y cyfweliad yn cynnwys rhanddeiliaid o sefydliadau cyhoeddus nad oes ganddynt bwerau datganoledig. Pwysleisiwyd hyn fel cyfle mawr a gollwyd ar gyfer cyflawni'r effeithiau llesiant yng Nghymru.
- "*Mae'n debyg nad yw [sero net] yn cael y sylw sydd ei angen arno... oherwydd ein bod yn gweithredu ac yn teimlo fel Llywodraeth Ganolog yn hytrach na Llywodraeth Cymru,*

*er ein bod yn gweithredu yng Nghymru, nid ydym yn teimlo'r pwysau o wybod eich rhan chi o reolaeth wrth gyflawni'r targed hwn... wyddoch chi, oherwydd ein maint a'r ffaith ein bod ni'n gweithredu'n unswydd yng Nghymru ... Byddai'n ymddangos yn wallgof pe na baem yn cyfrannu at y targed hwnnw, oni fyddai*?" (TH8).

- Roedd chwyddiant cyflogau a recriwtio yn ddau bryder hirdymor mawr arall gan lawer o randdeiliaid.
- Er bod rhaglenni hyfforddi a chymorth yn cael eu cynnig, ni chafodd manteision tymor hwy'r buddsoddiad eu gwireddu'n llawn eto. "*Rydym yn hyfforddi pobl dda ond wedyn rydyn ni'n dechrau 'dwyn oddi wrth yr hen i dalu'r newydd'; fe gollais swyddog gwych yr wythnos hon sydd ddim yn beth da, a byddai'n wych pe gallem gael graddfa gyflog gyffredin neu rywbeth i siarad amdano. Mae rhywbeth yn tynnu pobl. Rydw i'n cefnogi datblygiad pobl, ond y gwir yw, cyn gynted ag y bydd ganddyn nhw eu gradd... maen nhw'n diflannu. Nid ydym yn cael amser o gwbl gyda nhw yn y busnes i elwa ar hyfforddi pobl*. (TH7).

# 4.0 Argymhellion

- Mae rhanddeiliaid yn credu'n gryf fod y polisïau cywir ar waith yng Nghymru, ond yn ystod y cyfweliadau, roeddent yn cydnabod y dylent, fel cenedl fach, nawr ganolbwyntio ar adeiladu cysylltiadau gwaith agosach a gwneud y gorau o'r buddion y gall llywodraethu gwlad fechan eu cyflwyno.
- Mae'r ymchwil hwn wedi dangos, i'r rhai sydd eisoes yn ymgysylltu'n weithredol ac yn rheolaidd â'r CCM, fod y gefnogaeth yn ddi-fai. Fodd bynnag, mae cymynroddion Gwerth Cymru, Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol [Cymru], a Chonsortiwm Prynu Cymru yn parhau, ac roedd llawer o'r rhanddeiliaid a gyfranogodd yn ansicr ynghylch y cymorth caffael sy'n cael ei gynnig gan Lywodraeth Cymru a phwrpas a rôl y CCM.
- Eglurodd y cyfranogwyr yn y sector cyhoeddus ehangach fod angen arweiniad canolog arnynt yn fwy nag erioed a chyda'r ddeddfwriaeth newydd, a natur frys datgarboneiddio a digideiddio, roeddent yn croesawu unrhyw gefnogaeth y gellid ei chynnig. Dywedodd llawer o randdeiliaid fod yn well ganddynt gyfeiriad yn hytrach na cheisio 'straffaglu' eu ffordd eu hunain trwy newid.

Gan ystyried adborth yr arolwg a'r cyfweliadau gan 88 o randdeiliaid sy'n cynrychioli 45 o gyrff cyhoeddus, mae'r argymhellion ar gyfer y Gweinidog a'r CCM fel a ganlyn, wedi'u rhestru yn ôl blaenoriaeth fel yr awgrymwyd:

## 4.1 Llywodraethu ac Integreiddio

- Ail-farchnata tîm y CCM yn llwyr, gan gyfleu ei bwrpas a'i rolau a'i gyfrifoldebau unigol yn glir i'r sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru.
- Datblygu'r Bwrdd Arwain Caffael Cenedlaethol [Cymru] i wella arweinyddiaeth a llywodraethu ar gyfer dyrchafu rôl caffael cyhoeddus yn strategol o fewn ac ar draws sefydliadau yn sector cyhoeddus Cymru.
- Bydd Cynllun Gweithredu a Datganiad Polisi Caffael Cymru yn cael eu diwygio'n llwyr.
- Mynd i'r afael â'r her capasiti caffael yn y CCM a'r sector cyhoeddus ehangach. Adroddwyd bod hyn yn flaenoriaeth frys ers 2007. Bydd gweddill yr argymhellion yn yr adroddiad hwn yn anodd eu gweithredu heb y buddsoddiad hanfodol hwn.

## 4.2 Digideiddio

- Ymgynghori â'r sector cyhoeddus ehangach ar heriau gyda digideiddio – deall y materion yn llawn cyn dylunio a buddsoddi yn yr ateb.
- Buddsoddi mewn llwyfan digidol cwbl integredig ar gyfer caffael 'hygyrch i bawb' sydd i) yn cofleidio dulliau arloesol fel deallusrwydd artiffisial, ii) yn cipio data mewn modd amserol, iii) yn dylunio system sy'n lleddfu'r heriau capasiti a deimlir gan yr holl weithwyr proffesiynol caffael, ac iv) yn hyfforddi unigolion i'w defnyddio'n dda.

## 4.3 Sero Net

- Mae angen rhoi mwy o bwyslais gan y CCM ar y ffaith bod lleihau carbon yn orfodol, nid rhywbeth 'braf ei gael'.
- Mewn ymgynghoriad ag arweinwyr caffael ac arweinwyr heblaw caffael mewn cyrff cyhoeddus yng Nghymru a'r sector preifat a'r trydydd sector, datblygu'r offer a'r canllawiau angenrheidiol ar gyfer ymgorffori sero net mewn caffael (gallai hyn a digideiddio fod y tasgau cyntaf i'r Bwrdd Arwain Cenedlaethol).

## 4.4 Cynaliadwyedd

- Diffinio'n glir yr hyn a ddymunir gyda chanlyniadau gwerth yng Nghymru; mae llawer o randdeiliaid yn teimlo y dylai hyn fod yn benodol i gategorïau.

- Defnyddio ac adeiladu ar y dangosyddion cenedlaethol lefel uchel presennol (Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol) i ddatblygu mesurau categori penodol.
- Parhau â'r gweithgaredd dysgu a datblygu i helpu a chefnogi gweithwyr proffesiynol caffael gyda'r ddeddfwriaeth newydd.
- Cynnal perthynas gydweithredol â swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i sicrhau bod blaenoriaethau cynaliadwy, defnydd iaith a negeseuon yn cydredeg.
- Dylanwadu, arwain a gwrando ar eraill y tu allan i Gymru i gofleidio'r nodau cynaliadwyedd pwysig yr ydym yn anelu atynt yn fyd-eang i ddiogelu cenedlaethau'r dyfodol.
- Cynllunio olyniaeth: cydweithio â phartneriaid allweddol mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion i addysgu ac ysbrydoli i wneud caffael sector cyhoeddus [a'r gadwyn gyflenwi] yn yrfa ddethol, nid un rydych yn 'syrthio iddi'.

### 4.5 Cyfathrebu

- Datblygu strategaeth gyfathrebu gan ddefnyddio dull wedi'i dargedu'n fwy i sicrhau'r ymgysylltiad gorau posibl ag uwch arweinwyr cyrff cyhoeddus a'r rhai sydd ar flaen y gad o ran gweithgarwch caffael.
- Datblygu strategaeth gyfathrebu ar gyfer arweinwyr heblaw rhai caffael. Mae'r cylch gwaith caffael yn fwy nag erioed o'r blaen o ran darparu gwerth, ac mae'r ymchwil wedi cadarnhau bod a) yr ewyllys gan weithwyr caffael proffesiynol yno, ond b) nad oes ymrwymiad ar draws y sefydliad.
- Datblygu strategaeth gyfathrebu ar gyfer cyrff cyhoeddus sydd yng Nghymru ond nad oes ganddynt bwerau datganoledig. Mae hyn yn berthnasol i iechyd a gofal cymdeithasol a llawer o sefydliadau eraill a arweinir gan y llywodraeth. Mae llawer o gyfleoedd a gollwyd ar gyfer rhannu gwybodaeth, cydweithio a chyflenwyr o Gymru.

## 5.0 Sylwadau Terfynol

- Mae data gwariant hunan-gofnodedig gan sector cyhoeddus Cymru (£10.8 biliwn) yn cadarnhau bod gwariant caffael yn tyfu o'r naill flwyddyn i'r llall, ond gyda hynny daw mwy o gyfrifoldeb a chyfle i sicrhau gwell canlyniadau i Gymru.
- Mae'n amlwg o'r cyfweliadau â rhanddeiliaid fod y gymuned gaffael yn teimlo'n angerddol ac wedi ymrwymo i welliant parhaus. Mae rhanddeiliaid yn rhannu barn bod gan Gymru lawer i ymfalchïo ynddo, ond bod gwelliannau brys i'w gwneud.

- Crybwyllwyd bod adnoddau, sgiliau a chapasiti yn bryderon ers degawdau. Mae diffyg buddsoddiad hirdymor mewn caffael bellach ar fin torri ac mae'n destun rhwystredigaeth i bawb.
- Yn yr oes newydd hon o Ddiwygio Caffael, bydd buddsoddiad, arweinyddiaeth, gwybodaeth a chyfathrebu effeithiol yn allweddol.
- Y gobaith yw y bydd canfyddiadau'r ymchwil a'r argymhellion hyn yn helpu i lywio penderfyniadau a buddsoddiadau yn y dyfodol mewn cyfnod sydd bellach yn dyngedfennol i Gymru, yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol.
- Roedd rhanddeiliaid yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd i fod yn rhan o'r ymchwil a'r ymgynghoriad i drafod y materion a'r heriau parhaus a datblygol y maent yn eu hwynebu bob dydd, bob wythnos, bob mis a phob blwyddyn.
- O safbwynt ymchwil, hwn fu un o'r ymarferion mwyaf boddhaus a bu'n gyfrifoldeb a gymerwyd o ddifrif. Mae'n gyfrifoldeb i'r llywodraeth, i lunwyr polisi, i weithwyr proffesiynol caffael, ac i'r rhai a roddodd o'u hamser i gyfrannu at yr adroddiad hwn a arweinir gan ymchwil. Yn ogystal, rhaid ystyried y bobl hynny sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru y gallai penderfyniadau caffael gwael effeithio ar eu bywydau.

## Cydnabyddiaeth

Cyflogwyd myfyrwyr ôl-raddedig, Dilyara Abilkhairova, Mitchell Patriarche, ac Ashleigh Reed, fel dadansoddwyr ymchwil rhan-amser wrth astudio MSc Rheoli Cadwyn Gyflenwi yn Gynaliadwy ym Mhrifysgol Caerdydd. Dyma rai o'n cenhedlaeth o arweinwyr y dyfodol.

## Atodiad 1 Rhestr lawn o sefydliadau rhanddeiliaid a gymerodd ran

| | |
|---|---|
| **Awdurdodau Lleol**<br>Ardal<br>Pen-y-bont ar Ogwr<br>Caerffili<br>Caerdydd<br>Cynghorau Sir Ddinbych a Sir y Fflint - Gwasanaeth Caffael Cydweithredol<br>Gwynedd<br>Merthyr Tudful<br>Dinas Casnewydd<br>Abertawe<br>Wrecsam<br>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) | **Llywodraeth Cymru**<br>Masnachol, Llywodraeth Cymru<br>Gwasanaethau Cyfreithiol, Llywodraeth Cymru<br>Llywodraeth Cymru<br><br>**Cyrff Cenedlaethol**<br>Amgueddfa Cymru<br>Yr Is-adran Tirweddau, Natur a Choedwigaeth Llywodraeth Cymru<br>Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)<br>Eiddo a Seilwaith<br>Traffig Cymru (Gogledd a Chanolbarth)<br>Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru<br>Croeso Cymru<br>Awdurdod Cyllid Cymru<br>Tŷ'r Cwmnïau |
| **Awdurdodau Argyfwng a Thân ac Achub**<br>Heddlu Dyfed Powys<br>Heddlu Gwent<br>Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru<br>Heddlu Gogledd Cymru<br>Heddlu De Cymru a Heddlu Gwent | **Addysg**<br>Prifysgol Caerdydd<br>Coleg y Cymoedd<br>Coleg Gwent<br>Cymwysterau Cymru<br>Prifysgol De Cymru |
| **Arall**<br>Centre for International Ltd Life DVLA<br>Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol<br>GwerthwchiGymru<br>Hwb Gwyddorau Cymru<br>Scape Group<br>WRAP Cymru | **Iechyd**<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda<br>Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru - Gwasanaethau Caffael<br>Ymddiriedolaeth GIG Felindre |

Cardiff University | Prifysgol Caerdydd
Centre of Public Value Procurement
Canolfan Caffael Gwerth Cyhoeddus

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Atodiad 2 – Cwestiynau'r Arolwg

## Adran 1 – Arfer Gorau

| | |
|---|---|
| C1 | Mae'r CCM yn ysgogi gweithgarwch caffael cydweithredol yng Nghymru er mwyn **sicrhau'r canlyniadau gorau posibl o ran gwerth cymdeithasol ac economaidd hirdymor** o wariant cyhoeddus. |
| | *Pa newidiadau neu gamau gweithredu fyddai'n gwella'r sgôr hwn?* |

| | |
|---|---|
| C2 | Mae'r CCM yn wych am alinio ei ffyrdd o weithio, ac ymgysylltu, â rhanddeiliaid, i gyflawni **atebion caffael arloesol a chynaliadwy.** |
| | *Pa newidiadau neu gamau gweithredu fyddai'n gwella'r sgôr hwn?* |

| | |
|---|---|
| C3 | Mae'r CCM yn darparu gwasanaeth a chymorth rhagorol wrth helpu sefydliadau i gyflawni caffael sy'n **canolbwyntio ar ganlyniadau** (lle mae taliadau i gyflenwyr yn gysylltiedig â pherfformiad cyflawni contract). |
| C4 | Rwy'n ymwybodol o gymorth gan y CCM ar gyfer **dylunio a datblygu fframwaith er budd pawb, gan sicrhau'r cyfraniadau mwyaf posibl** at bedwar dimensiwn lles, lle bynnag y bo modd. |
| | *Pa newidiadau neu gamau gweithredu fyddai'n gwella'r sgoriau yma?* |

| | |
|---|---|
| C5 | Mae'r CCM yn darparu gwasanaeth a chymorth rhagorol i sefydliadau sy'n ceisio **integreiddio caffael yn well** i'w prosesau sefydliadol ehangach. |
| C6 | Rwyf wedi cael y cymorth angenrheidiol gan y CCM i gyflawni ar feysydd polisi drwy'r **offer, y canllawiau a'r hyfforddiant priodol**. |
| | *Pa newidiadau neu gamau gweithredu fyddai'n gwella'r sgoriau yma?* |

| | |
|---|---|
| C7 | Mae'r CCM yn darparu gwasanaeth a chymorth rhagorol tuag at adeiladu a chynnal **Cadwyni Cyflenwi Gwydn** ym maes caffael. |
| C8 | Rwy'n ymwybodol o'r o**ffer strategol ac asesiadau risg cydnerthedd yn y gadwyn gyflenwi** i sicrhau bod gweithgarwch caffael yn cyd-fynd â'r polisi caffael blaengar ac yn cyfrannu ato. |
| | *Pa newidiadau neu gamau gweithredu fyddai'n gwella'r sgoriau yma?* |

| | |
|---|---|
| C9 | Rwy'n ymwybodol bod y CCM wedi llofnodi'r **cod ymarfer moesegol** ac wedi cyhoeddi **datganiad caethwasiaeth fodern**. |
| | *Pa newidiadau neu gamau gweithredu fyddai'n gwella'r sgoriau yma?* |

## Adran 2 – Polisïau Blaenoriaeth

| | |
|---|---|
| C10 | Rwy'n ymwybodol o'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus a fydd yn sefydlu Gwaith Teg fel rhan annatod o gaffael sy'n gyfrifol yn gymdeithasol. |
| C11 | Mae'r CCM yn adeiladu ar arfer gorau caffael cynaliadwy ac yn ei raddio, i gefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion lles sefydliadol. |
| | *Pa newidiadau neu gamau gweithredu fyddai'n gwella'r sgôr hwn?* |

| | |
|---|---|
| C12 | Mae'r CCM yn darparu gwasanaeth a chymorth rhagorol tuag at gyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â chaffael blaengar, fel yr Economi Sylfaenol a Chylchol. |
| | *Pa newidiadau neu gamau gweithredu fyddai'n gwella'r sgôr hwn?* |

| | |
|---|---|
| C13 | Mae'r CCM yn darparu gwasanaeth a chymorth rhagorol i randdeiliaid sy'n ceisio ymgorffori arferion a phrosesau caffael cynaliadwy. |
| C14 | Rwy'n ymwybodol o'r pecynnau cymorth ar adnoddau strategol cynaliadwyedd, asesiadau risg, rheoli contractau, gwerth cymdeithasol a chostau oes gyfan gan y CCM. |

| | |
|---|---|
| | *Pa newidiadau neu gamau gweithredu fyddai'n gwella'r sgoriau yma?* |

| | |
|---|---|
| C15 | Mae'r CCM yn wych am flaenoriaethu lleihau carbon a Sero Net drwy benderfyniadau caffael cynaliadwy. |
| C16 | Mae'r CCM yn darparu gwasanaeth a chymorth rhagorol i randdeiliaid sy'n ceisio blaenoriaethu lleihau carbon a Sero Net. |
| C17 | Rwy'n ymwybodol o gynlluniau Lleihau Carbon y CCM, a bod lleihau allyriadau carbon yn rhan orfodol o dendrau caffael ar gyfer contract LIC dros £5m o fis Ebrill 2022. |
| | *Pa newidiadau neu gamau gweithredu fyddai'n gwella'r sgoriau yma?* |

| | |
|---|---|
| C18 | Mae'r CCM yn darparu gwasanaeth a chymorth rhagorol i gyflawni caffael yn seiliedig ar werth. |
| C19 | Rwy'n ymwybodol o offer Seiliedig ar werth ac asesiadau risg (e.e., MEAT i MAT) y CCM i sicrhau bod gweithgarwch caffael yn cyd-fynd â chanlyniadau hirdymor Cymru ac yn gwneud y gorau ohonynt. |
| | *Pa newidiadau neu gamau gweithredu fyddai'n gwella'r sgoriau yma?* |

## Adran 3 – Proffil a Llywodraethu

| | |
|---|---|
| C20 | Mae'r CCM yn wych am godi **statws a phroffil hirdymor** y proffesiwn caffael, fel galluogwr polisi ar draws y Sector Cyhoeddus yng Nghymru. |
| | *Pa newidiadau neu gamau gweithredu fyddai'n gwella'r sgôr hwn?* |

| | |
|---|---|
| C21 | Mae'r CCM yn wych am ddarparu cymorth i randdeiliaid sy'n ceisio codi **statws a phroffil hirdymor** caffael. |
| C22 | Rwy'n ymwybodol o'r cyfleoedd datblygu a gynigir gan y CCM i staff yn fy sefydliad i ennill eu **cymwysterau proffesiynol CIPS.** |
| | *Pa newidiadau neu gamau gweithredu fyddai'n gwella'r sgoriau yma?* |

| | |
|---|---|
| C23 | Mae'r CCM yn gyfaill beirniadol rhagorol, ac mae ganddi'r llywodraethu priodol i annog buddion, effeithlonrwydd ac arbedion drwy gaffael a chontractio. |
| C24 | Mae'r broses gaffael yn cael ei deall yn dda a'i chymhwyso'n gyson gan Weithwyr Proffesiynol Caffael yn fy nhîm i neu'r rhai sy'n darparu cymorth i'm tîm (pa un bynnag sy'n berthnasol). |
| | *Pa newidiadau neu gamau gweithredu fyddai'n gwella'r sgoriau yma?* |

## Adran 4 – Digidol

| | |
|---|---|
| C25 | Mae'r CCM yn gwella **integreiddiad a phrofiad y defnyddiwr** o'i atebion digidol. |
| C26 | Mae'r CCM yn darparu cymorth rhagorol tuag at gyflawni'r **Strategaeth Ddigidol i Gymru**. |
| C27 | Rwy'n ymwybodol o **Gynllun Gweithredu Digidol** ac **Offer a Thempledi Digidol** y CCM ar gyfer caffael. |
| | *Pa newidiadau neu gamau gweithredu fyddai'n gwella'r sgoriau yma?* |

| | |
|---|---|
| C28 | Mae'r CCM yn darparu **gwybodaeth reoli ac adroddiadau data** ardderchog sy'n ddefnyddiol ac yn gywir. |
| | *Pa newidiadau neu gamau gweithredu fyddai'n gwella'r sgôr hwn?* |

**Adran 5 – Strategaeth**

| | |
|---|---|
| C29 | Rwy'n croesawu nawdd gweinidogol i Grŵp Arwain Caffael Cenedlaethol i helpu i oruchwylio'r gwaith o gyflawni rhaglen Diwygio Caffael, cynghori ar strategaeth gaffael genedlaethol a chynghori ar amcanion a chynllun busnes caffael Llywodraeth Cymru. |
| C30 | A hoffech chi fod yn aelod - os felly, ble dylai'r CCM fod yn blaenoriaethu cymorth ar gyfer gwella eich gallu i ddarparu arfer gorau ym maes caffael i Gymru? |

Cardiff University
Prifysgol Caerdydd

Centre of Public Value Procurement
Canolfan Caffael Gwerth Cyhoeddus

Llywodraeth Cymru
Welsh Government


## Atodiad 3 – Graff a) yn dangos yr atebion amrywiol o'r Sector Cyhoeddus Ehangach (Yn amrywio o Las tywyll -Anghytuno'n Gryf / Glas golau - Cytuno'n Gryf)



Cardiff University / Prifysgol Caerdydd — Centre of Public Value Procurement / Canolfan Caffael Gwerth Cyhoeddus

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Graff b) yn dangos yr atebion amrywiol gan Lywodraeth Cymru (Yn amrywio o Las tywyll -Anghytuno'n Gryf / Glas golau - Cytuno'n Gryf)



# Atodiad 4 - Protocol Cyfweld gan gynnwys Cwestiynau'r Cyfweliad

**Gwahoddiad E-bost**

Annwyl x

Comisiynwyd Canolfan Caffael Gwerth Cyhoeddus, Prifysgol Caerdydd gan Lywodraeth Cymru (yr Adran Caffael a Masnachol) i gynnal archwiliad lles ar y swyddogaeth gaffael fasnachol yng Nghymru - fel y canfyddir gan randdeiliaid mewnol ac allanol.

Mae'r gwaith a gomisiynwyd yn cymryd proses dau gam drwy gasglu tystiolaeth drwy i) arolwg ymgysylltu â rhanddeiliaid a ii) cyfweliadau – y bydd y dadansoddiad ohonynt yn llywio datblygiad Strategaeth Gaffael newydd yng Nghymru.

Rwy'n eich gwahodd am gyfweliad ar-lein trwy Teams, a ddylai gymryd 25 munud ar y mwyaf. Bydd cyfweliadau'n cael eu recordio at ddibenion trawsgrifiadau yn unig. Bydd cyfweliadau wedi'u trawsgrifio yn cael eu hanfon atoch i'w gwirio. Gofynnir i chi lofnodi ffurflen ganiatâd yn y man hwn. Ni ddatgelir unrhyw enwau oni bai eich bod yn rhoi caniatâd i wneud hynny.

Thema cwestiynau'r cyfweliad yw deg egwyddor Datganiad Polisi Caffael Cymru sydd i'w gweld yma: Datganiad polisi caffael Cymru | LLYW.CYMRU

Diolch ymlaen llaw am eich cyfranogiad.

Cofion cynnes,
Jane Lynch

……………………………………………………

**Cyflwyniad [ar lafar] Cyfweliad Ar-lein**

Diolch am ymateb mor gyflym.

Dyma ail ran prosiect ymchwil dau gam, a gomisiynwyd gan John Coyne, Cyfarwyddwr Caffael a Masnachol, Llywodraeth Cymru – wedi'i dalfyrru i'r CCM yn yr ymchwil.

Y cam cyntaf oedd arolwg ar-lein y gallech fod wedi'i gael a'i gwblhau. Heddiw, byddwn yn rhedeg trwy 9 cwestiwn cyfweliad a fydd yn cael eu trawsgrifio felly mae'r botymau recordio a thrawsgrifio Teams ymlaen.

Rwy'n gwybod y gallem siarad am y pethau hyn drwy'r dydd, ac yn fwriadol ni anfonais y cwestiynau cyn y cyfweliad gan nad wyf am i bobl eu gorfeddwl. Mae'n bwysig eich bod yn rhannu eich ymateb greddfol / di-oed i bob pwnc ac os gallech anelu am 2-3 munud o ymatebion lefel uchel i bob cwestiwn, byddai'n ein cadw i amser ac yn ein helpu i reoli'r ffocws - a chyflymu trawsgrifio'r nodiadau wedyn.

Yn dilyn y cyfweliad, byddaf yn anfon e-bost atoch yn cynnwys dogfen drawsgrifio ddienw a glân – eich cod yw XX

Byddaf hefyd yn anfon taflen wybodaeth am y prosiect, a ffurflen gyfrinachedd / ganiatâd gyda thrawsgrifiad y cyfweliad i'w wirio. A fyddech gystal â llofnodi'r ffurflen ganiatâd a'i hanfon yn ôl ataf mewn e-bost gyda'r trawsgrifiad y cytunwyd arno.

At ddibenion moesegol, hoffwn amlygu eich bod yn cymryd rhan yn yr ymchwil hwn fel gwirfoddolwr sy'n golygu y gallwch dynnu'n ôl o'r ymchwil ar unrhyw adeg, neu gallwch wrthod ateb cwestiwn am unrhyw reswm.

Bydd eich ymatebion yn cael eu codio fel mai dim ond chi neu fi fydd yn gwybod pwy ddywedodd beth.

Os nad oes gennych unrhyw gwestiynau uniongyrchol, i ddechrau'r cyfweliad, ar gyfer y recordiad a fyddech gystal â rhannu eich enw, rôl a sefydliad – diolch.

A gaf i ofyn yn gyntaf a ydych chi a) wedi cael arolwg Llywodraeth Cymru a b) wedi cymryd rhan?

Gadewch i ni ddechrau'r cwestiynau thematig – rwy'n cynnwys rhai awgrymiadau i'ch helpu i ymateb

……………………………………………………………………

**Cwestiynau'r Cyfweliad**

C1. **Caffael sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau**
- Ydych chi'n deall beth a olygir wrth gaffael sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau?
- Yn eich barn chi, beth yw'r prif rwystrau rhag cyflawni'r dull hwn (os oes rhai o gwbl)?
- Sut gall y CCM eich helpu i'w goresgyn?

C2**. Caffael cydweithredol**
- I ba raddau ydych chi'n cymhwyso trefniadau caffael cydweithredol?
- Beth sy'n gweithio'n dda a beth sy'n fwy heriol?
- Pa gefnogaeth sydd ei hangen arnoch i ddeall cyfleoedd cydweithio?
- I ble fyddech chi'n mynd i ddod o hyd i'r gefnogaeth honno fel arfer?

C3. **Integreiddio mewn caffael**
- I ba raddau y mae caffael wedi'i integreiddio â gweddill y sefydliad?
- Pa gymorth sydd ei angen arnoch i godi rôl caffael yn y sefydliad?
- Beth yw'r rhwystrau rhag integreiddio?

C4. **Cost isaf yn erbyn gwerth**
- Un o'r heriau mwyaf a amlygwyd yn yr arolwg oedd symud i ffwrdd o'r gost isaf, pa mor hawdd ydych chi'n meddwl y bydd symud o MEAT i MAT yn eich sefydliad/categori gwariant?
- Beth arall sydd angen i Lywodraeth Cymru ei wneud i helpu gyda'r cyfnod pontio hwn?

C5. **Cyfathrebu**
- Amlygwyd cyfathrebu fel maes ar gyfer gwella yn yr arolwg, sut y gall y CCM gyfathrebu'n well â chi?
- Beth yw'r ffordd orau o gael gwybodaeth a diweddariadau?

C6. **Sero Net**
- Pa mor wybodus a pharod ydych chi gyda'ch caffael i gyrraedd y targedau sero net a osodwyd gan Lywodraeth Cymru? Pa gategori gwariant sydd fwyaf perthnasol i chi?

- Pa gymorth a chefnogaeth sydd eu hangen arnoch?
- Pa rôl ydych chi'n teimlo sydd gan dîm CCM Llywodraeth Cymru wrth wneud y cynnydd hwn?

C7. **Caffael digidol**

- Pa mor ddatblygedig y mae **caffael digidol** yn eich adran / sefydliad?
- *Sut gall y CCM eich helpu i symud ymlaen ar yr agenda pwysig hwn*?
- Beth yw'r rhwystrau o ran digideiddio?

C8. **Caffael Cynaliadwy**

- I ba raddau ydych chi wedi datblygu o ran gwreiddio'r pedwar amcan llesiant yn eich caffael?
- Pa un sy'n fwyaf heriol i chi a sut ydych chi'n ceisio goresgyn hynny?
- I ba raddau ydych chi'n disgwyl i Lywodraeth Cymru eich cefnogi?

C9 **Cynlluniau Gweithredu**

Gofynnodd y Gweinidog i arweinwyr cyrff cyhoeddus ddatblygu a chyhoeddi **cynlluniau gweithredu** sy'n cyd-fynd â DPCC i gefnogi gwell darpariaeth gaffael o flaenoriaethau ar y lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

- Yn eich sefydliad, beth sydd wedi gweithio a beth fu fwyaf heriol?
- Pa gymorth ydych chi'n ei ddisgwyl gan dîm y CCM i ddatblygu strategaeth (os o gwbl)?

Yn olaf, a oes unrhyw faterion dybryd yr hoffech i mi dynnu sylw atynt a'u rhannu â Llywodraeth Cymru nad wyf wedi'u cynnwys yn y cyfweliad hwn?

Diolch am eich cyfranogiad a'ch cyfraniad at wella caffael yng Nghymru.
…………………………………………………………………………

**Drafft E-bost – Wedi'r Cyfweliad**

Annwyl XXX

Atodir y trawsgrifiad cryno dienw o'r cyfweliad at eich sylw. Sicrhewch eich bod yn fodlon ar y cynnwys - a wnewch chi ddefnyddio newidiadau wedi'u holrhain os ydych chi am waredu neu ychwanegu unrhyw beth.

Os oes dyfyniad yr hoffech i mi ei ystyried yn yr adroddiad terfynol, yna rhowch wybod i mi a hoffech gael eich enwi ai peidio. Byddaf yn cynnwys dyfyniadau dienw beth bynnag.

Atodir hefyd daflen wybodaeth y prosiect a'r ffurflen gydsynio. Mae angen llofnodi'r ffurflen gydsynio. Gallwch deipio os nad oes gennych lofnod electronig. A fyddech gystal â dychwelyd y ffurflen imi erbyn dydd Llun 25 Mawrth.

Byddwn yn rhoi gwybod ichi am gynnydd. Bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyflwyno i arweinwyr yn Abertawe ar fore 17 Ebrill.

Diolch unwaith eto am eich cyfraniadau a'ch cefnogaeth werthfawr.

Cofion cynhesaf
Jane Lynch

Cardiff University – Centre of Public Value Procurement / Prifysgol Caerdydd – Canolfan Caffael Gwerth Cyhoeddus

Llywodraeth Cymru / Welsh Government

# Atodiad 5 – Cyfranogwyr y Cyfweliad wedi'u Codio

| Rhif | Cod Dadansoddi | Dyddiad y Cyfweliad | Math o Randdeiliad | Cyfarwyddwr / Rheolwr | Cynllun Gweithredu | Arolwg |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | TU1 | 19/03/2024 | Sector Cyhoeddus Ehangach | Rheolwr | Nac oes | Nac oes |
| 2 | TU3 | 19 Mawrth | Sector Cyhoeddus Ehangach | Rheolwr | Nac oes | Oes |
| 3 | TU4 | 19 Mawrth | Arall | Rheolwr | Nac oes | Nac oes |
| 4 | TU5 | 19 Mawrth | Sector Cyhoeddus Ehangach | Rheolwr | Nac oes | Nac oes |
| 5 | TU6 | 19 Mawrth | Sector Cyhoeddus Ehangach | Rheolwr | Nac oes | Oes |
| 6 | TU7 | 19 Mawrth | Sector Cyhoeddus Arall | Rheolwr | Nac oes | Nac oes |
| 7 | WE1 | 20 Mawrth | Sector Cyhoeddus Ehangach | Cyfarwyddwr | Nac oes | Oes |
| 8 | WE2 | 20 Mawrth | Sector Cyhoeddus Ehangach | Cyfarwyddwr | Nac oes | Nac oes |
| 9 | WE3 | 20 Mawrth | Sector Cyhoeddus Ehangach | Cyfarwyddwr | Nac oes | Nac oes |
| 10 | TH1 | 3 Ebrill | Arall | Cyfarwyddwr | Nac oes | Oes |
| 11 | TH2 | 21 Mawrth | Llywodraeth Cymru | Rheolwr | Nac oes | Nac oes |
| 12 | TH3 | 2 Ebrill | Sector Cyhoeddus Ehangach | Rheolwr | Nac oes | Oes |
| 13 | TH4 | 2 Ebrill | Sector Cyhoeddus Ehangach | Cyfarwyddwr | Oes | Oes |
| 14 | TH5 | 28 Mawrth | Sector Cyhoeddus Ehangach | Cyfarwyddwr | Oes | Nac oes |
| 15 | TH6 | 21 Mawrth | Sector Cyhoeddus Ehangach | Rheolwr | Nac oes | Nac oes |
| 16 | TH7 | 21 Mawrth | Sector Cyhoeddus Ehangach | Cyfarwyddwr | Nac oes | Oes/Nac Oes |
| 17 | FI1 | 22 Mawrth | Sector Cyhoeddus Ehangach | Cyfarwyddwr | Nac oes | Nac oes |
| 18 | MO1 | 25 Mawrth | Sector Cyhoeddus Ehangach | Rheolwr | Nac oes | Nac oes |
| 19 | MO2 | 25 Mawrth | Sector Cyhoeddus Ehangach | Rheolwr | Nac oes | Nac oes |
| 20 | WE4 | 27 Mawrth | Sector Cyhoeddus Ehangach | Cyfarwyddwr | Oes | |
| 21 | WE5 | 27 Mawrth | Llywodraeth Cymru | Rheolwr | Nac oes | Nac oes |
| 22 | WE6 | 27 Mawrth | Llywodraeth Cymru | Cyfarwyddwr | Nac oes | Nac oes |
| 23 | WE7 | 27 Mawrth | Sector Cyhoeddus Ehangach | Cyfarwyddwr | Oes | Nac oes |
| 24 | WE8 | 3 Ebrill | Sector Cyhoeddus Ehangach | Rheolwr | Nac oes | Oes |
| 25 | MO3 | 2 Ebrill | Sector Cyhoeddus Ehangach | Cyfarwyddwr | Nac oes | Oes |
| 26 | TH8 | 4 Ebrill | Arall | Rheolwr | Nac oes | Nac oes |
| 27 | TU8 | 9 Ebrill | Sector Cyhoeddus Ehangach | Rheolwr | Nac oes | Nac oes |
| ~~28~~ | ~~Oes~~ | ~~Gŵyl~~ | ~~Iechyd~~ | Rheolwr | | |
| ~~29~~ | ~~Oes~~ | ~~Gohiriedig~~ | ~~Iechyd~~ | ~~Cyfarwyddwr~~ | | |
| ~~30~~ | ~~Oes~~ | ~~Gohiriedig~~ | ~~Iechyd~~ | ~~Cyfarwyddwr~~ | | |
| ~~31~~ | ~~Oes~~ | ~~E-bost wedi'i ddychwelyd~~ | ~~ALl~~ | ~~Rheolwr~~ | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ~~32~~ | ~~TU2~~ | ~~19 Mawrth i'w gadarnhau~~ | ~~Iechyd~~ | ~~Cyfarwyddwr~~ | | |
| ~~33~~ | ~~MO5~~ | ~~I'w gadarnhau~~ | ~~ALl~~ | ~~Rheolwr~~ | | |
| ~~34~~ | ~~MO4~~ | ~~I'w gadarnhau~~ | ~~Arall~~ | ~~Cyfarwyddwr~~ | | |

## Atodiad 6: Sylwadau cyfranogwyr unigol yn ymwneud â Deg Egwyddor DPCC.

| **Egwyddor** | **Canfyddiadau'r Arolwg** | |
|---|---|---|
| Ysgogi gweithgarwch caffael cydweithredol yng Nghymru er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl o ran gwerth cymdeithasol ac economaidd hirdymor o wariant cyhoeddus. | **Adroddiad Gweithiwr Llywodraeth Cymru** "*Ychydig iawn o gontractau sy'n cael eu caffael ar sail Cymru gyfan lle gellid cyfuno pŵer prynu ac felly gwella gwerth am arian, a hynny o ran cost y contractau ond hefyd cost gweinyddu'r contractau.*".<br>Roedd gan lawer o gyfranogwyr LlC dipyn i'w ddweud ar y mater hwn, gydag ychydig iawn yn credu bod y CCM yn gwneud y mwyaf o werth cymdeithasol ac economaidd cynaliadwy hirdymor o wariant cyhoeddus. "*Mae'r ffocws [o hyd] fel petai'n sefydlog iawn ar feini prawf tymor byr ac ariannol*". | Amlygodd **y sector cyhoeddus ehangach** fod angen gwelliant cyfathrebu ymhellach. Byddai'n well gan gyfranogwyr ddull mwy cydweithredol wrth weithio gyda Llywodraeth Cymru. Gan ddweud, dyfynner, "*Nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth o Gaffael Masnachol Llywodraeth Cymru yn ysgogi gweithgarwch caffael cydweithredol yng Nghymru i sicrhau'r gwerthoedd a'r canlyniadau gorau posibl o wariant cyhoeddus*". Nodwyd ganddynt y byddai mwy o gydweithio yn gwella "*Gwelededd gweithgaredd masnachol*" a bod angen gwell cydweithio a rhannu arferion gorau ar draws "*ALl, LlC, CLlLC, a'r sector cyhoeddus ehangach, tân, yr heddlu, y GIG.*" |
| Integreiddio caffael i galon datblygu a gweithredu polisi Cymru | Pwysleisiwyd "*Mae diffyg adnoddau staff wedi rhwystro hyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf...*". Cafwyd gwahaniaeth barn ar sut y dylid rheoli caffael, "*Ni ddylem fod yn gwneud caffael yn wahanol ar draws y rhyw 100 o sefydliadau sector cyhoeddus ledled Cymru*" yn erbyn "*Ni ddylai caffael [...] fod yn wasanaeth canolog, dylai caffaelwyr gael eu hymgorffori mewn adrannau, er mwyn eu gwneud yn arbenigwyr categori ar yr hyn y mae'r adran yn ei gaffael*". | Dywedodd y Sector Cyhoeddus Ehangach y byddai'n "*Elwa ar well cyfathrebu i wella cefnogaeth*" gan y CCM. "*Byddai'n ddefnyddiol iawn cael pwyntiau cyswllt yr holl staff. Yn rhy aml, darperir e-bost generig.*" "*Rwy'n newydd i'r swydd... Pe bai gan y sector cyhoeddus fanylion cyswllt staff sy'n gysylltiedig â'r fframweithiau gwahanol, byddai hyn yn ddefnyddiol. Hyd y gwn i, nid yw hyn ar gael neu o leiaf nid wyf wedi dod o hyd iddo.*" |
| Datblygu caffael cynaliadwy hirdymor, sy'n adeiladu ar arfer gorau ac yn ei raddio ac | Cydsyniwyd bod y CCM yn darparu cymorth rhagorol ar gyfer dylunio a datblygu fframweithiau er budd pawb, gan sicrhau'r cyfraniadau mwyaf posibl at bedwar dimensiwn lles. Fodd bynnag, gallai wella ar fesur yr effeithiau | Roedd llawer llai o adborth ansoddol ar gyfer y maes pwnc hwn o'i gymharu ag eraill.<br>Nid oedd llawer o aelodau'r Sector Cyhoeddus yn Ehangach yn ymwybodol o'r fframwaith i wella'r pedwar dimensiwn llesiant gan |

| | | |
|---|---|---|
| yn gosod camau clir sy'n dangos sut mae caffael yn cefnogi cyflawni amcanion llesiant sefydliadol | gan nodi, "*Rwy'n credu, pan fydd fframweithiau wedi'u cynllunio a'u datblygu, eu bod yn gwneud eu gorau i sicrhau'r cyfraniadau mwyaf posibl at bedwar dimensiwn llesiant, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, ond mae'n gostwng wrth fesur effaith hyn.*". Mae aelodau o'r farn y bu gwelliant sylweddol ym maes caffael cynaliadwy hirdymor, gan adeiladu ar arferion gorau a'u graddio, i gefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion llesiant sefydliadol gan nodi, "*Mae'r gyfarwyddiaeth yn flaengar o ran caffael cynaliadwy, ond gallai wneud llawer mwy*" a gofyn am fwy o safoni gan ddweud, "*Gellid ei wella trwy: Ddiffiniadau a mesurau safonedig ar gyfer manylebau a dulliau safonedig o gofnodi canlyniadau*". | ddweud, "*dim syniad eu bod yn gwneud*", ond mae'r rhai a oedd yn ymwybodol yn cydnabod bod cefnogaeth wych gan ddatgan, "*Wedi cael cefnogaeth ymarferol a rhagorol dros y misoedd diwethaf*". |
| Codi statws a phroffil hirdymor y proffesiwn caffael a'i rôl fel hwylusydd polisi caffael | Mae'r rhan fwyaf o gyfranogwyr yn credu bod y CCM yn rhagorol am godi statws a phroffil hirdymor y proffesiwn caffael er y gellir gwneud mwy o waith bob amser. Cafwyd sylwadau lluosog am ymwybyddiaeth am gymhwyster CIPS gyda safbwyntiau cymysg. Mae'r rhai sy'n ymwybodol yn "*ddiolchgar iawn am y cyfle hwn*" ac yn credu ei fod yn "*rhaglen boblogaidd iawn ac wedi'i hysbysebu'n dda*". Mewn cyferbyniad nid yw eraill yn gwbl ymwybodol o CIPS gan ddatgan, "*Nid wyf yn ymwybodol o hyn*" a "*Doeddwn i ddim yn ymwybodol o hyn*". | Mae'r sector cyhoeddus ehangach yn credu bod y CCM yn "*gwneud gwaith rhagorol wrth gyfrannu at godi statws a phroffil hirdymor y proffesiwn caffael" gan gydnabod ymhellach "gefnogaeth dda drwy'r arlwy dysgu a datblygu". Roedd rhai yn dal yn ansicr ble i ddod o hyd i help a chyngor. Dywedodd cyfranogwr arall, "... siomedig bod hyfforddiant CIPS bellach yn gyfyngedig".* |
| Cefnogi amcanion polisi LlC sy'n ymwneud â chaffael blaengar, fel yr Economi Sylfaenol a Chylchol, trwy | Nid yw cyfranogwyr LlC yn credu eu bod yn cael y gefnogaeth gan y CCM sy'n ofynnol i adeiladu cadwyni cyflenwi gwydn, ac mae "*angen mwy o adnoddau i fynd i'r afael â'r maes hwn yn llawn*". "*Ar hyn o bryd does dim digon o staff [sy'n] deall y gadwyn gyflenwi a'r farchnad*". | Ychydig iawn o wybodaeth sydd gan y Sector Cyhoeddus Ehangach am y ffyrdd y mae'r CCM yn darparu cymorth tuag at adeiladu a chynnal Cadwyni Cyflenwi Gwydn. "*Nid oes digon o bwyslais yn cael ei roi ar gyflenwyr lleol*" ac mae'r cyfranogwyr a fu'n adrodd eu bod yn ymwybodol o'r offer strategol a'r |

| | | |
|---|---|---|
| weithgaredd caffael cydweithredol, seiliedig ar le (boed yn genedlaethol, rhanbarthol neu leol) sy'n meithrin cadwyni cyflenwi lleol gwydn | Ychydig iawn o gyfranogwyr sy'n ymwybodol o'r gefnogaeth sydd ar gael, "*Nid wyf yn ymwybodol o'r offer [...] ar gael ar gyfer hyn*". Roedd y cyfranogwyr hynny a oedd yn ymwybodol yn teimlo y "*gellid gwneud llawer mwy*" ac nid oeddent yn deall y polisi caffael blaengar. Nodwyd diffyg cyfathrebu. | asesiadau risg sydd ar waith yn credu "*Nid yw'n ddigon [o hyd].*" |
| 6. Gweithredu i atal newid yn yr hinsawdd drwy flaenoriaethu lleihau carbon a dim allyriadau drwy gaffael mwy cyfrifol a chynaliadwy i gyflawni ein huchelgais ar gyfer sector cyhoeddus sero net Cymru erbyn 2030 | Nid oedd llawer o'r cyfranogwyr yn ymwybodol o Gynllun Lleihau Carbon LlC ac roeddent yn credu y dylid gostwng y trothwy £5m. Mae rhai yn cydnabod ymdrechion a wnaed tuag at leihau carbon gan y CCM er bod llawer yn nodi diffyg arbenigedd ac adnoddau. "*Rydym yn gofyn am Gynlluniau Lleihau Carbon ar gyfer fframweithiau, ond nid yw'n glir iawn beth yr ydym i fod i'w wneud â nhw.  Nid ydym yn olrhain allyriadau CO2 trwy weithgaredd fframwaith i linell sylfaen ac yna'n eu monitro ac nid yw diffyg data ansawdd yn helpu. "[...] Ar hyn o bryd nid ydym yn ddigon medrus yn y maes hwn i wneud hyn yn effeithiol*". | Mae llawer o gyfranogwyr y sector cyhoeddus ehangach yn credu bod blaenoriaethu Lleihau Carbon a Sero Net wedi "*wedi gwneud cynnydd da*" er bod llawer yn rhybuddio ei bod hi'n dasg eithaf mawr ac anodd gan deimlo dan bwysau pellach gan "*blaenoriaethau sy'n gwrthdaro*" gan ddweud, "*Rwy'n teimlo bod pwysau'r gyllideb yn ei gwneud hi'n fwyfwy heriol*". Gellir gwneud gwelliannau pellach drwy "*rannu arfer da [y mae angen ei gyfleu'n well a bod ar gael yn well i weddill y sector cyhoeddus. Mae'r rhan fwyaf ohonom yn ei chael hi'n anodd deall sut mae mynd i'r afael â'r materion mawr hyn ac mae angen arweiniad canolog arnom.*". |
| Alinio ein ffyrdd o weithio a chynyddu cyfranogiad rhanddeiliaid i gefnogi atebion arloesol a chynaliadwy drwy gaffael | Mae'r rhan fwyaf o gyfranogwyr yn credu nad yw'r CCM yn gwneud digon i ymgysylltu â rhanddeiliaid ac yn mynnu "*mwy o ymgysylltu â Rhanddeiliaid a'r angen i chwilio am gyfleoedd cydweithredol newydd*". Maen nhw'n teimlo bod "*... adnoddau wedi'u colli yn y maes hwn a heb eu hadnewyddu, mae cymorth cyfyngedig ar gael nawr.*" Ac nid oes digon o aelodau staff i gyflawni'r canlyniadau a ddymunir. | Mae cyfranogwyr y sector cyhoeddus ehangach yn credu "*nad oes digon o ymgysylltiad gan Lywodraeth Cymru*" ac yn gofyn am "*Gyfarfodydd mwy penodol a rheolaidd, yn ddelfrydol, wyneb yn wyneb sy'n dod â rhanddeiliaid at ei gilydd*". Ar ben hynny, mae'r cyfranogwyr yn teimlo "*bod yr adnoddau ar gyfer hyn wedi cael eu cyhoeddi a'u rhannu ond [dydyn nhw ddim yn] ymwybodol o raglen barhaus - mae'n teimlo [fel] rhywbeth un tro*". |
| Cydweithio â rhanddeiliaid i hyrwyddo cyfle cyfartal a | Prin iawn yw ymwybyddiaeth cyfranogwyr LlC am y datganiadau caethwasiaeth fodern a gyhoeddwyd neu ble i ddod o hyd | Mae cyfranogwyr y sector cyhoeddus ehangach yn cydnabod bod y polisïau hyn yn bwysig ond yn pwysleisio y gallent fod "*wedi dyddio* |

| | | |
|---|---|---|
| Gwaith Teg yng Nghymru | iddynt, "*Doeddwn i ddim yn ymwybodol o hyn*", a hoffai aelodau weld cyhoeddiad ehangach ar y mater. | *ychydig*". Ond, ar y cyfan, credant eu bod yn bwysig ac yn berthnasol iawn ac maent yn gweithio'n agos gyda nhw. |
| Gwella integreiddiad a phrofiad y defnyddiwr o ran ein hatebion a'n cymwysiadau digidol, gan wneud y defnydd gorau o'n data caffael i gefnogi gwneud penderfyniadau | Nid yw cyfranogwyr LlC yn ymwybodol iawn o'r offer sydd ar waith ac mae'r rhai sy'n ymwybodol o'r offer yn eu cael yn "*anodd eu defnyddio" ac "yn hen ac wedi dyddio. Mae angen diweddaru'r system gyflenwi gyfan ar gyfer caffael o'r dechrau i'r diwedd ar gyfer y dyfodol. Ni ddylai fod pecynnau cymorth; dylai'r cyfan fod wedi'i ymgorffori*. Gall diffyg ymatebion yn y maes hwn fod yn arwydd o ddiffyg gwybodaeth. | Dangosodd y rhan fwyaf o'r ymatebion nad oedd cyfranogwyr yn ymwybodol o'r holl offer oedd ar gael. Roedd cais gan y sector cyhoeddus ehangach i'w "*gwneud hi'n haws dod o hyd i fframweithiau. Mae angen i gyfathrebu wella*". Hoffai aelodau gael mwy o welededd a thryloywder gan y CCM, gyda llawer yn nodi "*Nid ydym yn cael unrhyw beth*" neu "*Does dim golwg o hyn*". |
| Hyrwyddo caffael seiliedig ar werth sy'n sicrhau'r canlyniadau hirdymor gorau posibl i Gymru | Mae aelodau o'r farn y bu cymorth ar waith i ddarparu caffaeliadau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, er eu bod yn credu y "gellir gwneud gwelliannau yn y maes hwn", hoffai aelodau gael "proses / canllawiau penodol ar waith i osod dangosyddion perfformiad allweddol / cytundebau lefel gwasanaeth sy'n gysylltiedig â thaliad". "*Mae unigolion yn dda ond nid oes digon ohonynt o gwbl i gael effaith go iawn*" a "*Nid oes fawr o bwysau yn ystod fy ymarferion caffael i wneud ystyriaethau sy'n seiliedig ar werthoedd*". Gellir gwneud gwelliannau "*drwy ymgysylltu'n well drwy gaffael wrth ddefnyddio eu harbenigedd i ddatblygu manylebau, gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau gwerthuso a monitro canlyniadau*". O ran y newid o MEAT i MAT nid yw llawer o aelodau'n ymwybodol o'r rhaglen ac maent yn dal i ddefnyddio'r MEAT gydag un aelod yn datgan, "*Rwy'n ymwybodol o MEAT gan fod y manylebau rwy'n gweithio arnynt yn defnyddio'r dull hwnnw ar gyfer sgorio, nid oeddwn* | Er bod rhai aelodau yn credu bod WGCP wedi rhoi cymorth, mae eraill "*heb weld unrhyw enghreifftiau o'r datganiad hwn*" ac nid ydynt yn "*… ymwybodol bod WGCP yn darparu cymorth o'r fath*." At hynny, mae'r Sector Cyhoeddus Ehangach wedi canfod "*cymorth cyfyngedig ac eithrio cyhoeddi'r canllawiau fframwaith*". Ar y cyfan, nid yw'r aelodau'n ymwybodol o lawer o'r offer ac maent yn gofyn am hyrwyddo offer o'r fath ymhellach. |

| | | |
|---|---|---|
| | *yn ymwybodol o MAT gan nad wyf yn defnyddio'r dull hwnnw*". Yn gyffredinol, mae angen mwy o gyfathrebu a chefnogaeth i addysgu aelodau am yr offer a'r fframweithiau sydd ar gael a'u gweithredu. | |